Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2017-18

Gorffennaf 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru, i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2017-18

Gorffennaf 2018

www.cynulliad.cymru

# Cynnwys

**Ein perfformiad: trosolwg ........................................................................ 7**

Rhagair ........................................................................................................................ 8

Cyflwyniad ..................................................................................................................10

Datganiad o ddiben .....................................................................................................13

Comisiwn y Cynulliad ...................................................................................................13

Y Comisiynwyr ............................................................................................................14

Ein nodau strategol .....................................................................................................16

Ein blaenoriaethau i gyflawni strategaeth y Comisiwn ..................................................16

Sut caiff adnoddau staffio Comisiwn y Cynulliad ei drefnu .............................................18

Crynodeb o'r gweithgaredd allweddol ...........................................................................20

**Ein perfformiad: dadansoddiad ............................................................. 27**

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ...............................................................28

Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad ......................................................40

Defnyddio adnoddau'n ddoeth .....................................................................................49

Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn barhaus a mesur y gwelliannau ac adrodd amdano ........................................................................................... 61

**Ein hatebolrwydd: llywodraethu corfforaethol ................................... 73**

Adroddiad y Cyfarwyddwyr ..........................................................................................74

Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ............................. 76

Datganiad llywodraethu ...............................................................................................77

**Ein hatebolrwydd: taliadau a staff** .......... **99**

Adroddiad ar daliadau a staff .......... 100

**Ein hatebolrwydd: atebolrwydd ac archwilio** .......... **121**

Datganiad am gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodiadau ategol .......... 122

Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau .......... 124

Tystysgrif ac adroddiad annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru .......... 127

**Ein datganiadau ariannol** .......... **133**

**Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon** .......... **139**

**Atodiad - adroddiadau rheoleidd-dra** .......... **171**



# EIN PERFFORMIAD: TROSOLWG



# Rhagair



**Elin Jones AC**
Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn sy'n cwmpasu fy ail flwyddyn fel Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bu'n rhaid i'r Cynulliad wynebu nifer o heriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn wleidyddol, mae'r tirlun cyfansoddiadol newidiol, o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, yn golygu bod rhaid i'n Senedd ymateb mewn modd effeithiol a hyblyg er budd dinasyddion Cymru. Bu'n rhaid i Aelodau wynebu nifer o heriau personol, yn enwedig o ran marwolaeth ein cydweithiwr, Carl Sargeant.

Drwy'r cyfan, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dangos gwydnwch a dewrder mawr ac wedi parhau i fod yn gadarn yn ei natur benderfynol, nid yn unig wrth gyflawni ei flaenoriaethau ond hefyd wrth barhau i wella'r ffordd rydym yn gweithio.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol, er enghraifft, yn y ffordd rydym yn annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Yn yr hydref eleni cynhelir etholiadau ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru gyntaf.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, dan gadeiryddiaeth yr Athro Laura McAllister, wedi gwneud

darn o waith sylweddol ac wedi cyhoeddi argymhellion a fyddai, os y'u mabwysiadir, yn sicrhau y bydd gennym Senedd sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Ers yr hydref y llynedd, rydym hefyd wedi edrych yn fforensig ar y ffordd rydym yn mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol yn y gweithle. Yn ogystal â gwella pa mor hygyrch yw ein prosesau cwynion a chyflawni nifer o welliannau, rydym wedi cymryd dull trawsbleidiol ac yn ymrwymedig i ddarparu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd rhag aflonyddu. Mae Comisiwn y Cynulliad ac Arweinwyr Pleidiau wedi dweud yn glir nad oes lle i ymddygiad amhriodol o unrhyw fath yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac na fydd yn cael ei oddef. Byddaf yn parhau i annog newid yn niwylliant y Cynulliad i sicrhau ei fod yn lle diogel i bawb sy'n gweithio'n galed i gynrychioli pobl Cymru.

Mae hyn oll yn ychwanegol at y gwaith sylweddol a wnaed o fewn amserlen arferol busnes y Cynulliad, ac fe hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i staff Comisiwn y Cynulliad a Staff cymorth yr Aelodau am fynd gam ymhellach yn eu cefnogaeth i Aelodau yn ystod y 12 mis eithriadol ddiwethaf.

# Cyflwyniad



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, dywedais pa mor falch yr oeddwn o gael fy mhenodi i arwain tîm o staff ardderchog a oedd wedi ymrwymo i gyflawni rhaglen waith uchelgeisiol.

Mae 12 mis wedi mynd heibio bellach ers i mi gael fy mhenodi yn Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ac rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud wrth gyflawni'r uchelgeisiau hynny. Mae'r adroddiad yn nodi'r camau rydym wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd ar adeg lle rydym wedi wynebu pwysau cynyddol a chynnydd yn y llwyth gwaith.

O ran materion amgylcheddol, rydym wedi gwneud nifer o welliannau ar yr ystâd, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn ein hôl troed carbon. Mae ein defnydd o ynni wedi lleihau, yn ogystal â'n defnydd o ddŵr, nwy a thrydan. Rydym wedi cyflwyno ystod o fesurau i wella effeithlonrwydd ein technoleg bresennol ac nid oes unrhyw ran o'n gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Byddwn yn parhau i annog teithio carbon isel i'r ystâd ac oddi yno, a lleihau'r defnydd o blastigau untro.

Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i weithio'n ddwyieithog gan alluogi pobl i ddefnyddio y naill iaith swyddogol yn rhwydd ac yn effeithlon. Rydym wedi gweld newidiadau pendant, gan gynnwys y ffordd rydym yn recriwtio a chefnogi ein staff i feddu ar lefel cwrteisi o Gymraeg. Edrychaf ymlaen at weld cynnydd pellach dros y flwyddyn nesaf, fel ein bod yn parhau i fod yn sefydliad o esiampl ledled Cymru a thu hwnt o ran y ffordd rydym yn cynllunio a darparu gwasanaethau dwyieithog.

Mae ein strwythurau llywodraethu mewnol wedi cael eu hadolygu i wella prosesau gwneud penderfyniadau a galluogi gwell tryloywder yn y ffordd rydym yn cyllidebu, tra'n cynnal rheolaethau ariannol tynn. Rydym wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â Phwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad. O ganlyniad i'w gwaith

craffu manwl ar gyllideb a phrosesau'r Comisiwn i gymeradwyo prosiectau mawr, rydym bellach yn cynnwys rhagor o fanylion ar feysydd buddsoddi arfaethedig. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi cynnal adolygiad capasiti ac wedi ymgysylltu â phob aelod o staff o ran meddwl yn ffres am sut rydym yn blaenoriaethu a dyrannu adnoddau'n hyblyg.

Er gwaethaf ein llwyddiannau, fel y mae'r Llywydd yn nodi yn ei rhagair, rydym hefyd wedi gorfod wynebu cyfnodau anodd eleni fel sefydliad. Cawsom ein herio i edrych eto ar ein polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud ag urddas a pharch yn y gwaith ac rydym wedi mynd i'r afael â'r materion hynny fel blaenoriaeth uchel. Rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau i helpu pobl i ddod ymlaen i drafod unrhyw bryderon, gan fod yn hyderus y byddwn yn gwrando arnynt a'u cefnogi. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud ac mae rhaglen waith ar y gweill. Fel Prif Weithredwr a Chlerc, mae'n ddyletswydd arnaf i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n gweithio yn y Cynulliad neu'n ymweld â'n hystâd yn ei ystyried yn lle diogel a bydd hyn yn parhau yn flaenoriaeth. Rwy'n sicr y byddwn yn adeiladu ar sylfaen gref fel sefydliad sydd bob amser wedi ceisio sefydlu diwylliant gwaith cynhwysol ac amrywiol.

Mae heriau sylweddol o'n blaenau. Fel staff y Comisiwn, rydym yn cefnogi ein senedd genedlaethol ar adeg pan gaiff penderfyniadau sylweddol eu gwneud ynghylch trefniadau cyfansoddiadol yn y dyfodol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu â phobl Cymru mewn modd effeithiol llawn dychymyg. Mae rhaglen ddiwygio, ynghyd â'r canlyniadau yn sgil y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, yn golygu bod yna gynnydd yn ein llwyth gwaith ar adeg, yn debyg i nifer o sefydliadau eraill, lle mae'n rhaid i ni gyfyngu ar gyllidebau a gwneud y gorau o bob ceiniog sy'n cael ei hymddiried ynom. Mewn cyfnod o'r fath, mae'n dda gwybod bod ein harolygon staff i gyd yn cyfeirio at weithlu sy'n ymgysylltu, yn ymrwymedig ac yn cael ei yrru gan werthoedd. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r tîm drwy flwyddyn brysur arall.



# Datganiad o ddiben

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

# Comisiwn y Cynulliad

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagnodi bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn nodi sut caiff yr Aelodau eu penodi. Roedd pob un o'r pedair plaid wleidyddol fwyaf a gynrychiolir yn y Cynulliad yn enwebu Comisiynydd, yr oedd y Cynulliad yn cymeradwyo eu penodiad.

Dyletswydd y Comisiwn o dan y Ddeddf yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei swyddogaeth.

# Y Comisiynwyr

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Ei rôl yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y CynulliadCenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.



**Elin Jones AC**
(Plaid Cymru)

Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad ac mae'n gyfrifol hefyd, fel Comisiynydd, am gyfathrebu ac ymgysylltu.



**Suzy Davies AC**
(Ceidwadwyr Cymreig)

Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Joyce Watson AC**
(Llafur Cymru)

Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, a'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.



**Caroline Jones AC**
(UKIP)

Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ac adnoddau'r Cynulliad.



**Adam Price AC**
(Plaid Cymru)

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

# EIN NODAU STRATEGOL

## DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF

## YMGYSYLLTU Â HOLL BOBL CYMRU A HYRWYDDO'R CYNULLIAD

## DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH

# Ein blaenoriaethau i gyflawni strategaeth y Comisiwn

Roedd ein strategaeth ar gyfer y Pumed Cynulliad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, yn diffinio nifer o flaenoriaethau ar gyfer pob un o'n nodau strategol.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyflawniadau Comisiwn y Cynulliad yn erbyn ein nodau strategol a chynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018.

## Y cyd-destun

Mae Cymru yn cael tua £16 biliwn y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fel ysgolion ac ysbytai, i bobl Cymru. Yr enw arno yw 'Bloc Cymru'.

Dyrennir cyfran fach o Bloc Cymru i'r Comisiwn (tua 0.3 y cant) i dalu am gostau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r arian hwn yn caniatáu i'r 60 Aelod Cynulliad gynrychioli pobl Cymru, gwneud cyfreithiau, a chraffu ar bolisïau a phenderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

## Ein cyllideb

Yn ystod 2017-18, roedd y Comisiwn yn gyfrifol am gyllideb o £53.7 miliwn, a oedd yn cynnwys:

- £16.7 miliwn ar gyfer talu ein 60 Aelod Cynulliad, eu staff cymorth, costau cyllid pensiwn a chostau rhedeg eu swyddfeydd etholaethol a swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru;
- £37.0 miliwn i'r Comisiwn i ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen i'r Cynulliad weithredu.

Pennwyd y gyllideb ar gyfer ail flwyddyn y Pumed Cynulliad i ddarparu sefydlogrwydd a datblygu ein gwasanaethau yn seiliedig ar y gwaith blaenoriaeth a nodwyd gan y Comisiynwyr, gan gynnwys ein trefniadau i sicrhau ein parodrwydd ar gyfer yr effaith yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd, newid cyfansoddiadol a phwerau codi trethi. Cyhoeddir adroddiad ar Berfformiad Allweddol y Comisiwn sy'n dangos perfformiad corfforaethol ar draws pob maes gwahanol fel rhan o'r adroddiad blynyddol hwn. Rydym yn cael sicrwydd allanol ar ein gwariant gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ogystal â chraffu gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

# Sut caiff adnoddau staffio Comisiwn y Cynulliad ei drefnu

Mae'r Comisiwn yn cyflogi tua 450 o aelodau o staff parhaol sy'n wleidyddol ddiduedd, dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Clerc.

## Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc

Y Prif Weithredwr yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn, ac mae ganddi nifer o swyddogaethau statudol eraill. Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau, i'r Prif Weithredwr. Mae'r uwch-dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a'i thîm o Gyfarwyddwyr.

## Adrian Crompton – Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad

Darparu cymorth arbenigol seneddol, cyfreithiol ac ymchwil i'r Aelodau er mwyn sicrhau y cynhelir busnes mewn modd effeithiol ac effeithlon yn ogystal â chyfrifoldeb dros gyfathrebu a newid cyfansoddiadol.

## David Tosh – Cyfarwyddiaeth Adnoddau'r Cynulliad

Darparu TGCh, Adnoddau Dynol, ystadau a chyfleusterau, gwasanaethau diogelwch, yn ogystal â rheoli trefniadau caffael a llywodraethu. Mae Nia Morgan, y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am gynllunio ariannol corfforaethol, rheoli'r gyllideb, taliadau a phensiynau, yn adrodd i'r Gyfarwyddiaeth hon.

## Craig Stephenson – Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau'r Comisiwn

Darparu gwasanaethau a chymorth i'r Llywydd, Comisiwn y Cynulliad, y Bwrdd Rheoli, y gwasanaeth cyfieithu a chofnodi, cymorth busnes a datblygiad proffesiynol ar gyfer yr Aelodau a'n gwasanaethau gwybodaeth i'r cyhoedd ac i ymwelwyr.

## Elisabeth Jones – Y Prif Gynghorydd Cyfreithiol

Mae’r Prif Gynghorydd Cyfreithiol, yn darparu cyngor cyfreithiol ar lefel uchel ar draws ystod o swyddogaethau'r Comisiwn ac mae'n canolbwyntio ar newid cyfansoddiadol, materion allanol ac effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Cyfarwyddwyr fel fforwm ac fel y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Yn ymuno â hwy ar y Bwrdd Rheoli mae uwch-swyddogion o'u Cyfarwyddiaethau i ffurfio'r Bwrdd Rheoli. Ar ôl i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ystyried y trefniadau hyn yn ystod y flwyddyn, cafodd y trefniadau eu hadolygu a chynhaliwyd ymgynghoriad i ddisodli'r byrddau hyn gyda Bwrdd Gweithredol a Thîm Arweinyddiaeth o fis Ebrill 2018. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Natganiad Llywodraethu'r Prif Weithredwr, a gyhoeddir fel rhan o'r adroddiad hwn.

Mae nifer o grwpiau eraill wedi'u sefydlu, dan arweiniad yr uwch-swyddogion hyn, i drafod meysydd gwaith allweddol, fel newid cyfansoddiadol, urddas a pharch, ieithoedd swyddogol, deddfwriaeth a thrawsnewid gwasanaethau busnes y Cynulliad.

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad gynghorwyr annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr a'r uwch dîm rheoli yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.

Roedd y cynghorwyr yn ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad a threfniadau adrodd, yn cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer polisïau a systemau arfarnu a thalu staff a chadw trosolwg beirniadol o reolaeth ariannol y Comisiwn a'i weithdrefn rheoli risg. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am ein cynghorwyr annibynnol yn adran 'Adroddiad ar daliadau a staff' o'r adroddiad hwn.

# Crynodeb o'r gweithgaredd allweddol

## Urddas a Pharch

Ym mis Hydref, fe wnaethom adolygu ein trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch ymddygiad amhriodol yn dilyn pryderon a fynegwyd yn y cyfryngau ynghylch y diwylliant ym mywyd gwleidyddol y DU.  Gwnaeth y Llywydd, Cadeirydd ein Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac arweinwyr y pleidiau, ddatganiad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2017 nad oedd unrhyw le i ymddygiad amhriodol yn y sefydliad hwn a'r bwriad i ddarparu lle diogel i weithio ynddo.  Gwnaethom rai gwelliannau ar unwaith er mwyn cyflawni'r nod hwn tra sefydlodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei ymchwiliad "Creu'r Diwylliant Cywir: Ymchwiliad i'r Adolygiad o God Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad."

Gwnaed datganiad pellach ym mis Chwefror 2018 ar y cynnydd a wnaed ynghyd a chrynodeb o'r camau nesaf. Mewn ymateb i'r adolygiad a'r dystiolaeth yr oeddem yn ei chlywed, roeddem am ganolbwyntio ar y canlynol:

- cadarnhau a gwella hygyrchedd i'n prosesau a gweithdrefnau cwynion presennol;
- darparu cymorth emosiynol gwell i'r rhai sy'n gwneud cwynion a'r rhai y gwnaed honiadau yn eu herbyn;
- datblygu a mabwysiadu Polisi Urddas a Pharch yn ffurfiol sy'n cynnwys pawb sy'n gweithio yn y Cynulliad, p'un a ydynt wedi'u hethol, wedi'u cyflogi, eu contractio neu'n gwneud gwaith â thâl neu'n ddi-dâl i ni;
- hyfforddiant ymwybyddiaeth i Aelodau a staff nawr ac fel rhan o drefniadau cynefino a datblygu proffesiynol yn y dyfodol;
- adolygiad o'r trefniadau mewn pleidiau gwleidyddol i ganfod p'un a allant gyd-fynd â'n trefniadau;
- cael rhagor o wybodaeth drwy arolwg cyfrinachol a di-enw o Aelodau, y staff maent yn eu cyflogi a staff Comisiwn y Cynulliad i ganfod p'un a yw ein trefniadau yn mynd i'r afael â phrofiadau unigolion.

Drwy weithio mewn partneriaeth ag undebau llafur, staff a gyda sicrwydd arbenigwyr meincnodi allanol, cafodd ein polisi Urddas a Pharch ei gymeradwyo yn ddiweddar drwy bleidlais yn y Cynulliad, ac ar ôl hynny, lansiwyd ein tudalennau gwe newydd. Bydd y gwaith yn parhau yn 2018-19 i helpu i sicrhau bod y Cynulliad yn cyflawni ei ymrwymiad i ddarparu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd rhag aflonyddu.

## Newid cyfansoddiadol

Mae'r Cynulliad wedi bod yn paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r pwerau newydd a gafodd eu datganoli i'r Cynulliad yn sgil Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017. O dan Ddeddf 2014, daeth trethi newydd i Gymru, sy'n cael eu deddfu gan y Cynulliad (treth trafodiadau tir (yr hen dreth stamp) a'r dreth gwarediadau tirlenwi) i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'r Cynulliad wedi bod yn ymateb i Ddeddf Cymru 2017 wrth i ni symud o 'Setliad Rhoi Pwerau' i 'Setliad Cadw Pwerau', a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn wedi cael hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i'w helpu i ddeall goblygiadau'r newid a pharatoi i weithio o fewn setliad newydd.

## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Canolbwyntiwyd yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ar y gwaith sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried mewn materion sy'n ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys nifer o ymchwiliadau gan bwyllgorau, trafod Bil Brys, ymgysylltu â sefydliadau'r UE a phwyslais ar yr angen i Lywodraeth y DU sicrhau eu bod yn ymgysylltu â deddfwrfeydd ac nid dim ond llywodraethau datganoledig. Darperir rhagor o fanylion yn adran Dadansoddiad Perfformiad yr adroddiad hwn lle rydym yn disgrifio ein dull i gyflawni ein nod o ddarparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf.



## Diwygio'r Cynulliad

Rhoddodd Deddf Cymru 2017 bwerau i'r Cynulliad fynd i'r afael â rhai materion cyfansoddiadol pwysig, gan gynnwys ymreolaeth dros ei drefniadau mewnol ac etholiadol. Gan weithredu ar ran y sefydliad a phobl Cymru, mae'r Comisiwn wedi bod yn arwain rhaglen o ddiwygio trefniadau'r Cynulliad i ystyried y ffordd o ran o ddefnyddio'r pwerau hyn i helpu i'w wneud yn ddeddfwrfa gryfach, mwy hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd y Comisiwn ym mis Mehefin 2017 y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru.

Fel rhan o'i raglen diwygio, mae Comisiwn y Cynulliad wedi arwain gwaith i fynd i'r afael â'r materion capasiti sy'n wynebu'r Cynulliad o ganlyniad i'w maint bychan, ac i benderfynu ar drefniadau etholiadol priodol i'r Cynulliad, gan gynnwys yr isafswm oed.

Mae dylunio systemau etholiadol yn dechnegol iawn sy'n gofyn am



arbenigedd sylweddol. Er mwyn sicrhau bod unrhyw gynigion deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno gan y Comisiwn yn seiliedig ar gyngor cadarn, annibynnol sy'n ddiduedd yn wleidyddol, sefydlodd y Llywydd Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i adolygu'r dystiolaeth a gwneud argymhellion iddi hi a'r Comisiwn. Mae'r Panel, sy'n cael ei gadeirio gan yr Athro Laura McAllister CBE, yn cynnwys aelodau sydd ag arbenigedd helaeth ym meysydd systemau etholiadol, gwaith a chapasiti Seneddau, sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol, a materion ehangach o ran llywodraethu, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu.  Cyflwynodd y Panel ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2017. Ar orchymyn y Cynulliad, ymgynghorodd y Comisiwn â'r cyhoedd ynghylch argymhellion y Panel a diwygiadau posibl eraill rhwng mis Chwefror ac Ebrill 2018. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu a gweithdai i bobl ifanc ledled Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar unrhyw newidiadau a gynigir.



## Adolygiad capasiti

Ers 2007, mae'r Cynulliad wedi gweld cynnydd sylweddol yn ei bwerau a chyfrifoldebau, tra bod nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi aros yr un fath. Ymateb y Comisiwn i helpu gyda llwyth gwaith cynyddol yr Aelodau oedd dylunio a darparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra'n agos i anghenion a dewisiadau Aelodau unigol, yn ogystal â gweithredu gwasanaethau cymorth mwy soffistigedig ar gyfer gwaith Pwyllgor a Chyfarfod Llawn y Cynulliad. Er mwyn cynnal y cymorth hwn, roedd angen cynnydd graddol yn niferoedd staff y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn parhau i wynebu galwadau newydd a chynyddol, gan gynnwys cefnogi'r Cynulliad i fynd i'r afael ag effaith Brexit ar Gymru, yn ogystal â datblygu gwaith ar ddiwygio'r Cynulliad a newid cyfansoddiadol fel bod gennym Senedd sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus ac, er ein wedi cael budd o gyfnod o dwf, ni allwn ddisgwyl i ateb yr heriau newydd hyn drwy gynyddu maint y sefydliad ymhellach.

Felly, ym mis Medi, fe wnaethom ddechrau adolygiad capasiti er mwyn dadansoddi sut caiff adnoddau eu



dyrannu ar hyn o bryd yn y sefydliad ac i werthuso p'un a allwn fod yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth ddefnyddio adnoddau, er mwyn cyflawni nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad ac ar ôl hynny. Cafodd adroddiad canfyddiadau cychwynnol ei gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ym mis Ionawr 2018, ac rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu â staff. Rydym bellach wedi dechrau ar ail gam y gwaith i drafod y canfyddiadau yn fanylach ac i ddatblygu dulliau i ddarparu ein gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol.

## Risg

Drwy ein prosesau rheoli risg, rydym wedi nodi nifer o feysydd sy'n cyflwyno risgiau i'n llwyddiant wrth gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o bwysau ariannol, capasiti corfforaethol a llety i gyflawni ein blaenoriaethau; ein trefniadau ar gyfer adrodd ac ymchwilio i ymddygiad amhriodol; ymatebion negyddol i'n cynigion dros ddiwygio'r Cynulliad; effaith ar y Cynulliad yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd a risgiau cynyddol mewn perthynas â diogelwch ar-lein a ffisegol.





# EIN PERFFORMIAD: DADANSODDIAD



# Darparu cefnogaeth seneddol o’r radd flaenaf

Yn yr adran hon o'r adroddiad blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad o dan ein nod strategol o ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf.

## Arloesi a theilwra ein gwasanaethau er mwyn rhoi'r cymorth gorau i Aelodau, gan fanteisio ar dechnoleg

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Cynulliad wedi bod yn datblygu Cofnod y Trafodion er mwyn ei gwneud yn llawer haws a chyflymach i bobl chwilio, rhannu ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt – gan wneud eu profiad o ymgysylltu â'r Cynulliad yn llawer mwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r wybodaeth yn cynnwys trawsgrifiadau o gyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau a busnesau eraill a gyflwynwyd, fel cwestiynau llafar, amserol ac ysgrifenedig, cynigion a datganiadau barn. Mae'r gwelliannau yn golygu ei bod yn haws chwilio, darganfod a rhannu gwybodaeth gan y Cynulliad, gan gynnwys drwy Twitter, Facebook a LinkedIn. Datblygiad y Cofnod yw dim ond un canlyniad o'r rhaglen i drawsnewid gwasanaethau Busnes y Cynulliad dros y blynyddoedd i ddod.

Mae porth hunan-wasanaeth newydd, a ddatblygwyd yn fewnol a gyda'n partner datblygu, yn galluogi Aelodau’r Cynulliad a staff cymorth i gyflwyno cwestiynau Ysgrifenedig, Llafur ac Amserol, Datganiadau Barn, Cynigion a Gwelliannau yn gyflym ac o unrhyw leoliad. Mae'r system yn cynnig nifer o welliannau, gan gynnwys y gallu i olrhain a chwilio am eitemau a gyflwynwyd yn well, hysbysiadau awtomatig a phersonol, a phrosesau haws a chyflymach i gyflwyno ar y cyd a thanysgrifio. Mae'r adborth gan y defnyddwyr a oedd yn ymwneud â'r gwelliannau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac maent hefyd wedi cyfeirio at gyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus a fydd yn cael eu gweithredu yn 2018-19.

Cafodd y llwyddiannau hyn eu cydnabod pan gafodd y Cynulliad eu rhoi ar y rhestr fer yng Ngwobrau Digidol Cymru a gynhaliwyd ym mis Mai 2018.



## Ein partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd

Mae rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi'u darparu ar gyfer sefydliadau cyhoeddus a chymdeithas sifil drwy bartneriaeth strategol y Cynulliad gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd, gan gynnwys sesiynau ar y canlynol:

- Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19;
- Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Ble rydym ni nawr; ac
- Etholiad Cyffredinol y DU 2017.

Sefydlwyd chwe chymrodoriaeth yn ystod 2017 ar y pynciau canlynol: dementia; datblygu economi gogledd Cymru; TB buchol; hunanladdiad a hunan-niweidio; goblygiadau Brexit ar fasnachu yng Nghymru; a Brexit a'r Gyfraith Amgylcheddol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi bwydo i mewn i waith ymchwiliadau Pwyllgorau ac mae cynlluniau i sefydlu'r cynllun cymrodoriaeth yn barhaol yn ystod 2018.




## Gwneud ein gwaith yn hygyrch i'n cynulleidfaoedd

Cynhaliodd Paul Davies AC ymgynghoriad ar gysyniad cyffredinol Bil Awtistiaeth (Cymru) ac ymgynghoriad ar destun Bil drafft. Cafodd fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r ddau ymgynghoriad eu cynhyrchu (gan gynnwys fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r Bil drafft).

Mae ganddo hyd at 13 Gorffennaf 2018 i ddatblygu Bil Awtistiaeth (Cymru), a'i gyflwyno i'r Cynulliad.

## Galluogi ymateb sefydliadol cryf i newid cyfansoddiadol a chanlyniad refferendwm yr UE

Gwnaeth Deddf Cymru 2017 newid cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o 'fodel rhoi pwerau' i 'fodel cadw pwerau'n ôl', a daeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Yn flaenorol, roedd gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu ar unrhyw fater a oedd yn ymwneud â phwnc a restrwyd yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O dan y model cadw pwerau, mae gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu ar unrhyw fater nad yw wedi'i gadw i Senedd y DU gan Atodlenni 7a a 7b o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Craffu ar Brexit fydd un o'n prif heriau dros y ddwy flynedd nesaf gan ganolbwyntio fwyfwy ar y maes hwn ar draws holl waith y Cynulliad.

Mae'n dal i fod yn bwysig ymgysylltu â sefydliadau'r UE. Mae ein swyddfa'r UE wedi hyrwyddo gwaith pwyllgorau'r Cynulliad o fewn sefydliadau'r UE a gyda rhanddeiliaid yr UE, gan gynnwys:

- rhaglen hyfforddi deuddydd a ariennir gan yr UE ar gyfer swyddogion y Comisiwn ym Mrwsel i gynyddu eu gwybodaeth am sefydliadau'r UE a goblygiadau Brexit i Gymru;
- tri ymweliad gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol fel rhan o'i waith ar asesu'r goblygiadau i Gymru o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cyfarfod â Phrif Drafodwr yr UE, Michel Barnier; ymweliad gan y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau (ESS) fel rhan o'i ymchwiliad Gwerthu Cymru i'r Byd;
- ymgysylltu'n rheolaidd ag ASEau Cymru; ac
- ymweliadau gan grwpiau pleidiau ac Aelodau mewn perthynas â masnach a thrafodaethau'r UE.

Mae'r ystod o gefnogaeth sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth ddiweddar ar Brexit yn cynnwys:

- sesiynau briffio Brexit i Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn, gan gynnwys sesiynau ar y cyd â Chanolfan Llywodraethiant Cymru; a
- **Y diweddaraf ar Brexit, bob pythefnos, adroddiad Monitro Trafod misol**, blogiau ar ddatblygiadau diweddar, amserlen, ffeithluniau a chanllawiau.

## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu cryn dipyn o weithgarwch yn ymwneud â Brexit ar draws y Cynulliad. Mae rhai o'r prif elfennau wedi'u hamlinellu yn yr amserlen isod.

Allwedd:

- Ymchwiliadau pwyllgorau
- Dadleuon yn y Cyfarfod Llawn / Deddfwriaeth Cymru
- Gweithgaredd yn ymwneud â deddfwriaeth y DU
- Ymgysylltu

**Ebrill 2017**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ymateb i ymchwiliad  Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin ynghylch y Bil Diddymu Mawr (y cyfeirir ato wedyn fel Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

**Mai 2017**

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi Datganiad datganiadol am y Bil Diddymu Mawr.

Y Llywydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru am y Bil Diddymu Mawr.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cyhoeddi adroddiad ar y Papur Gwyn ar y Bil Diddymu Mawr: Goblygiadau i Gymru.

**Mehefin 2017**

Y Prif Weinidog yn  gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn am Brexit a Datganoli: Sicrhau Dyfodol Cymru

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ymweld â Dulyn fel rhan o ymchwiliad i oblygiadau Brexit i borthladdoedd Cymru.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cyhoeddi adroddiad ar ddyfodol y polisi rhanbarthol.

**Gorffennaf 2017**

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi ymgynghoriad ar y cyd ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ymweld â Brwsel i gwrdd ag Aelodau Senedd Ewrop a sefydliadau'r UE.

**Awst 2017**

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cyhoeddi adroddiad ar oblygiadau Brexit i borthladdoedd Cymru.

Medi 2017

Plenary Statement from the FM – Brexit and the Free Movement of People.

Datganiadau a dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad mewn perthynas â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cynnal cynhadledd i randdeiliaid i drafod Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ymweld â Brwsel fel rhan o ymchwiliad Gwerthu Cymru i'r Byd.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried goblygiadau Brexit o ran hawliau dynol.

Hydref 2017

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ysgrifennu at ASau am ddiwygiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE i drafod y Bil.

Tachwedd 2017

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn dechrau cyflwyno adroddiadau ar yr angen i ddiwygio is-ddeddfwriaeth a osodwyd gerbron y Cynulliad ar ôl Brexit.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ymweld â Brwsel i gwrdd â Michel Barnier, sy'n arwain trafodaethau Brexit ar ran yr UE.

Cadeiryddion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn mynd i fforwm rhyngseneddol ar Brexit yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Rhagfyr 2017

Y Cynulliad yn cytuno'n unfrydol ar gynnig i nodi cynigion ar gyfer Bil Parhad Cymru.

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn mynd i Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cynnal cynhadledd i randdeiliaid ar Berthynas Cymru â'r UE yn y Dyfodol.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiadau ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lansio ymchwiliad i Bwerau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth.

Ionawr 2018

Chwefror 2018

Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol adroddiad ar 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn Paratoi ar gyfer Brexit?'.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiad ar Lywodraethu'r DU ar ôl Brexit.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cynnal sesiwn dystiolaeth ar y cyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar Fil Masnach Llywodraeth y DU.

Cyhoeddi'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ysgrifennu at Aelodau Tŷ'r Arglwyddi ynghylch diwygiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiad ar Bwerau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth.

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ar Ddatganoli ac Ymadael â'r UE.

Y Cynulliad yn cytuno y dylid trin y Bil Cyfraith sy'n Deillio o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) fel Bil Brys.

Mawrth 2018

Y Pwyllgor Cyllid yn lansio ymchwiliad i'r hyn a fydd yn disodli cyllid yr UE ar ôl Brexit.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cyhoeddi adroddiad ym Mrwsel ar Berthynas Cymru â'r UE yn y dyfodol.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn cynnal sesiynau tystiolaeth ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ysgrifennu at Aelodau Tŷ'r Arglwyddi ynglŷn â diwygio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ymhellach.

Trafodaethau pob cyfnod o'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) wedi'u cwblhau yn y Cynulliad.



## Sicrhau bod Brexit yn flaenoriaeth

Ym mis Mawrth, trafododd y Cynulliad y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) fel Bil Brys, yr ail Fil Brys yn ei hanes.

Mae Biliau Brys yn caniatáu i ddarpariaethau cyfreithiol brys gael eu deddfu yn gyflym. Roedd y weithdrefn yn dilyn y broses ddeddfwriaethol pedwar cam arferol ond gydag amserlen llawer byrrach. Yn anarferol, gosodd y Llywydd ei datganiad ar Gymhwysedd Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad ar 27 Chwefror, cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol, er mwyn helpu gydag ystyriaethau'r Cynulliad.

**Amserlen:**

- Dydd Mawrth 6 Mawrth 2018: cytunodd y Cynulliad i drin Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) fel Bil Brys
- Dydd Mawrth 13 Mawrth: Cyfnod 1 (Dadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol)
- Dydd Mawrth 20 Mawrth: Cyfnod 2 (Pwyllgor y Cynulliad cyfan)
- Dydd Mercher 21 Mawrth: Cyfnod 3 a Chyfnod 4 (yn y Cyfarfod Llawn)

Cafodd y Bil ei basio gan y Cynulliad ar 21 Mawrth.

## Busnes y Cynulliad

Yn ystod 2017-18, bu Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli eu hetholwyr ac yn craffu ar bolisi, deddfwriaeth a gwariant y Llywodraeth mewn cyfarfodydd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn yn wythnosol.

**7** Dadl Aelodau Unigol

**68** Cyfarfod Llawn

**358** Cyfarfod Pwyllgor

**194** Adroddiad Pwyllgor

**2** Cwestiynau Brys

**59** Cwestiynau Amserol

## Darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol

Cafodd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad ei basio ar 12 Gorffennaf 2017. Mae'r cynllun yn amlinellu'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, i bobl Cymru, ac i gyflogeion y Comisiwn. Gan adeiladu ar ethos dwyieithog presennol Comisiwn y Cynulliad, un o'r themâu gwella yn y cynllun yw cynyddu lefel sgiliau Cymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad dros amser.  Mae hynny'n cynnwys datblygu dull ar gyfer recriwtio lle bydd angen i bob swydd newydd a swydd wag ofyn am o leiaf lefel sylfaenol/cwrteisi o sgiliau Cymraeg. Sefydlwyd gweithgor i gytuno ar y camau angenrheidiol a'u gweithredu, gan gynnwys:

- cytuno ar ddiffiniadau o Gymraeg cwrteisi a'r lefelau sgiliau iaith;
- llunio canllawiau ar gyfer recriwtio rheolwyr i sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad;
- datblygu testun i'w gynnwys mewn hysbysebion swyddi i sicrhau dull safonol;
- codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad a datblygu adnoddau a chwestiynau cyffredin ar gyfer ymgeiswyr.

Trafodwyd hyn â'r Undebau Llafur, Penaethiaid Gwasanaeth a rhwydweithiau staff a rhoddwyd sicrwydd nad yw'r dull yn gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn ymgeiswyr. Bydd y dull hwn yn cael ei weithredu erbyn haf 2018.

Hefyd, dechreuwyd ar y gwaith i ddarparu hyfforddiant a chynnal asesiadau dewisol o'r cyflogeion hynny sy'n dysgu Cymraeg Cwrteisi. Mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn rhoi cymorth i unigolion a thimau ac maent wedi paratoi modiwl Cymraeg Cwrteisi. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i staff gael eu hasesu ac mae'r rhai sy'n cyrraedd y lefel ofynnol yn cael tystysgrif. Ym mis Chwefror, cynhaliodd y Prif Weithredwr a'r Clerc ddigwyddiad i ddathlu llwyddiant y grŵp cyntaf o ddysgwyr i gyrraedd y lefel ofynnol o Gymraeg.

## Carl Sargeant AC

Ar 7 Tachwedd, yn drist iawn, bu farw un o'n Haelodau yn y Cynulliad.  Cafodd Busnes y Cynulliad ei ohirio ar unwaith.

Dywedodd y Llywydd, "Gwasanaethodd bobl Alun a Glannau Dyfrdwy gyda balchder a  dycnwch a bu ei gyfraniad at ddatblygiad y sefydliad democrataidd hwn yn un enfawr."

"Ar ran yr holl Aelodau a phawb sydd yn gweithio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, dymunaf ddatgan fy nghydymdeimlad dwysaf â'i deulu a'i gyd-weithwyr."

Ailddechreuodd busnes y Cynulliad ar 14 Tachwedd gyda munud o dawelwch ac yna teyrngedau gan Aelodau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.  Ymysg y nifer o deyrngedau, dywedodd cydweithiwr a chyfaill Carl, Lesley Griffiths AC, "...roedd yn cymryd ei swyddogaeth fel cynrychiolydd etholedig yn ddifrifol iawn, ac roedd yn falch o fod yn eiriolwr ar ran ei etholwyr, yn enwedig y rhai hynny nad oedd ganddynt lais."



## Rhodri Morgan

Roedd yn anrhydedd i ni gynnal gwasanaeth angladd y cyn Aelod Cynulliad a Phrif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan ar 31 Mai 2017. Daeth cannoedd o bobl i'r Senedd, y tu allan a thu mewn, i dalu teyrnged iddo. Darlledwyd y dathliad o'i fywyd ar Senedd.tv.



© Wales Online 2018



© Wales Online 2018




© Wales Online 2018

# Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo’r Cynulliad

Yn yr adran hon o'r adroddiad blynyddol, rydym yn disgrifio sut rydym wedi datblygu ein gwaith ar ein blaenoriaethau o dan nôl strategol Comisiwn y Cynulliad i ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad.

## Ymgysylltu’n strategol i gael effaith ar Fusnes y Cynulliad drwy bobl ledled Cymru ac ar-lein, a'r bobl sy'n ymweld â'n hystâd

Rydym wedi cefnogi Aelodau’r Cynulliad a phwyllgorau'r Cynulliad i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a gwahanol. Er enghraifft:

- digwyddiad yng Nghaerdydd ym mis Mawrth gyda menywod a oedd wedi cael profiadau cadarnhaol a negyddol o feichiogrwydd a mamolaeth tra'n gweithio. Mae hyn yn cynnwys defnyddio llwyfan ar-lein, Deialog, i gasglu ymatebion i lywio ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru;
- ymweliadau y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol â sefydliadau sy'n arbenigo mewn cefnogi ac addysgu pobl am hunanladdiad, ar gyfer yr ymchwiliad i Atal Hunanladdiad;
- grwpiau ffocws i gasglu barn penaethiaid a llywodraethwyr fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Gyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol;
- arolwg wedi'i anelu at nodi canfyddiadau ac agweddau pobl tuag at gartrefi carbon isel, a fydd yn llywio ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Yn ogystal â'r arolwg, ceir cyfweliadau fideo, sy'n cynnwys prynwyr am y tro cyntaf, asiantau gosod a'r rhai sydd wedi byw mewn cartrefi carbon isel yn y gorffennol.

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r modd y mae gweithgareddau ar yr ystâd yn cael eu rheoli, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i weithredu at ddibenion ddefnyddio ystâd y Cynulliad yn fwy pwrpasol. Rydym bellach yn cyflawni:

- gweithgarwch sy'n canolbwyntio mwy ar bolisi;
- mwy o ddigwyddiadau wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â gwaith democrataidd y senedd;
- mwy o gyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad fynychu digwyddiadau, gan wella profiad y digwyddiad i bawb dan sylw; a
- llai o ddigwyddiadau o natur debyg wedi'u trefnu ar yr un pryd ac yn cystadlu am gynulleidfaoedd.

## Ymrwymo'n gryf i bobl ifanc Cymru

Gwnaed cynnydd da ar gynlluniau i sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru, a gafodd ei gymeradwyo gan y Comisiwn ym mis Medi 2017 yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth, gan gynnwys arolwg y gwnaeth dros 5,000 o bobl ifanc ymateb iddo a thros 150 o weithdai ledled Cymru. Ystyriodd y Comisiwn ganlyniadau'r ymgynghoriad ac, ym mis Medi 2017, cytunodd i sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru, gydag etholiadau'n cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2018. Mae cynlluniau wrthi'n cael eu datblygu gan fwrdd prosiect ar draws sawl gwasanaeth ac mae'r cofrestru ar agor bellach.

Rydym yn parhau i weithio'n rhagweithiol gydag ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid, grwpiau cymuned a sefydliadau ledled Cymru i ddarparu gweithdai a chyflwyniadau ar waith y Cynulliad, lle roeddem wedi gallu rhyngweithio â thros 20,600 o bobl ifanc yn 2017-18.

## Sicrhau ei bod yn hawdd canfod gwybodaeth gywir mewn byd digidol

Lansiodd y *Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Digidol* ei adroddiad ar 21 Mehefin 2017 ac fe gafodd y canfyddiadau eu cyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad ym mis Gorffennaf.

Trafododd y Comisiwn ei ymateb i'r argymhellion ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2017 a nodwyd bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo i gyflawni nifer o'r prif ganfyddiadau e.e. datblygu offeryn clipio fideo newydd, naws newydd ar gyfer ein presenoldeb ar-lein a buddsoddiad newydd yng ngwefan y Cynulliad. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo yn y meysydd hyn i sicrhau bod ein gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'r briodol i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Drwy bartneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, o fis Tachwedd 2017 mae archif y Cynulliad i'w weld yn Ystafelloedd Darllen y Llyfrgell Genedlaethol ac mae Strategaeth Archifo ar gyfer Busnes y Cynulliad



wedi'i sefydlu.

Mae'r ffordd y mae pobl yn ymgysylltu â'r amgylchedd gwleidyddol yn newid a bydd y gwaith hwn yn rhoi mwy o dryloywder a hygyrchedd i wybodaeth am y Cynulliad a'i waith. Lluniwyd cynlluniau hefyd i drosi darnau ffilm o rai o gyfarfodydd busnes mwyaf hanesyddol y Cynulliad i fformat digidol yn 2018 a gwneud y ffilm yn fwy hygyrch ar-lein.

Datblygwyd Strategaeth Data Agored i helpu i hyrwyddo tryloywder, ymgysylltu ac effeithlonrwydd, ac mae'n sicrhau bod mwy o ddata busnes y Cynulliad ar gael i unrhyw un gael gafael arnynt, eu defnyddio neu eu rhannu yn haws drwy wefan y Cynulliad. Rydym wedi datblygu tudalen lanio gwefan newydd a fydd yn cynnwys data agored ar gyfer Cofnod y Trafodion a Deddfwriaeth gyda datblygiadau pellach ar gyfer data agored o gyfresi data y Swyddfa Gyflwyno i ddilyn. Mae'r holl Filiau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad ar gael bellach mewn fformat data agored (Y Goron XML).



## Cofio yn y Cynulliad Cenedlaethol

O 8 Awst i 24 Medi 2017, i gofio am ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, roeddem yn falch o weithio mewn partneriaeth gyda 14-18 NOW i ddod â cherflun y Weeping Window i'r Senedd.

Roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a gosod y Senedd fel man o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol ac fel canolfan ddiwylliannol i Gymru.

Yn ystod y cyfnod wyth wythnos:

- Croesawyd ychydig o dan 85,000 o ymwelwyr â'r ystâd
- Cafwyd cynnydd o 440.51% mewn ymwelwyr o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17
- Dros 6.6 miliwn o argraffiadau Twitter
- Cyrhaeddiad o 92,855 ar Facebook



## Nodi canmlwyddiant Brwydr Passchendaele

Aeth y Llywydd ac Arweinwyr Pleidiau'r Cynulliad i wasanaeth coffa yn Langermark (Ypres), Fflandrys i nodi canmlwyddiant Brwydr Passchendaele.

Ym mis Tachwedd 2017, ymwelodd dirprwyaeth o Fflandrys â'r Cynulliad ar gyfer digwyddiad coffa ar y cyd rhwng Seneddau a Llywodraethau Fflandrys a Chymru. Nododd y ddau ddigwyddiad yr hanes a rannwyd rhwng Cymru a Fflandrys yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a dathlu'r cyfeillgarwch rhwng ein pobl.



## Rhannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu â Chymru a thu hwnt

Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi cynghori nifer o sefydliadau allanol ar faterion yn amrywio o dechnoleg iaith i recriwtio. Ymysg y sefydliadau hyn oedd Prifysgol De Cymru, Heddlu Gwent, Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu, Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Caerdydd.

Unwaith eto eleni, cyflwynodd aelod o staff o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol nifer o sesiynau hyfforddiant ar y cyd â Chymdeithas y Cyfieithwyr, gyda'r nod o annog cyfieithwyr i ddefnyddio technoleg cyfieithu peirianyddol er mwyn hwyluso eu gwaith. Mae Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn aelod o Fwrdd Technoleg Llywodraeth Cymru, sy'n cynghori Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar faterion yn ymwneud â thechnoleg a'r Gymraeg.

Mae'r Cynulliad wedi parhau i chwaraeo rôl weithgar yn hyrwyddo democratiaeth Cymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol, yma yng Nghymru a thramor a, thrwy wneud hynny, wedi gosod y Cynulliad yn ddeddfwrfa rhyngwladol unigryw, arloesol a blaengar.

Mae'r Cynulliad wedi cymryd rhan gyda nifer o rwydweithiau helaeth, gan gynnwys cymryd rhan yng nghynadleddau a chyfarfodydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) yn Llundain, Gibraltar, Canada, Awstralia a Bangladesh; cyfarfodydd llawn a phwyllgorau Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon



(BIPA) yn y DU, Jersey, Iwerddon a Brwsel; a Chynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE) yn Valencia, Sbaen. Ymunodd y Llywydd â chyfarfod CALRE i drafod dyfodol ieithoedd lleiafrifol ledled Ewrop a chyflwynodd sesiwn a rhannu ein profiadau o weithio fel deddfwrfa gwbl ddwyieithog.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Cynulliad wedi croesawu dirprwyaethau rhyngwladol o nifer o wledydd gwahanol, gan gynnwys:

- New Brunswick, Canada;
- Senedd Sudan, fel rhan o raglen mewn partneriaeth â Global Partners Governance (GPG);
- Cynulliad Cenedlaethol y Gambia; a
- chroesawu diplomyddion rhyngwladol a oedd yn cynrychioli Israel, Sweden, UDA, Latfia, Gwlad Pwyl, Georgia, India, Gwlad Belg a Quebec.

Roedd meysydd o ddiddordeb ac y canolbwyntiwyd arnynt yn cynnwys seneddau dwyieithog, datblygiad proffesiynol parhaus Aelodau a chymorth ar gyfer Aelodau newydd eu hethol, datblygu gwasanaethau ymchwil o safon, craffu effeithiol gan bwyllgorau ac ymgysylltu â dinasyddion fel rhan o ddemocratiaeth agored, tryloyw a chyfranogol.





# Defnyddio adnoddau’n ddoeth

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn disgrifio cynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad o dan ein nod strategol o ddefnyddio adnoddau yn ddoeth.

## Meithrin ein gallu o ran pobl

Rydym yn gwybod ein bod yn wynebu heriau sylweddol. Mae'n rhaid i'n pobl feddu ar y sgiliau cywir i'w galluogi i berfformio'n dda yn eu swyddi ac mae'n rhaid i arweinwyr y dyfodol fod â'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau ein bod yn cyflawni'r heriau hyn.

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi cynllunio ac yn cyflawni Rhaglen Rheolwyr y Comisiwn: rhaglen arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion busnes presennol, newidiadau hysbys yn y dyfodol, ein gwerthoedd, cymwyseddau a nodau strategol. Ei nod yw datblygu gallu rheolwyr llinell a gwella gwaith ymgysylltu â chyflogeion a pherfformiad sefydliadol drwy amrywiaeth o fentrau:

- fideos ar-lein a hyfforddiant e-ddysgu i gwrdd ag ystod o ddewisiadau dysgu a chefnogi gweithio o bell;
- achrediad DPP ar gyfer y rhaglen gyfan er mwyn annog cyflogeion;
- dysgu cyn cwrs;
- ymgysylltu â'r Undebau Llafur a'r tîm recriwtio i wneud y cwrs yn orfodol i bob rheolwr newydd a rheolwyr nad ydynt wedi cael hyfforddiant yn y ddwy flynedd ddiwethaf;
- cyfres o weithdai mewnol i gynyddu dealltwriaeth o Fusnes y Cynulliad ar draws y sefydliad, gan gynnwys gweithdai ar Brexit;
- hyrwyddo pecyn cymorth digidol TGCh i ddatblygu sgiliau staff mewn meysydd perthnasol; a
- gweithio gydag Academi Cymru i ddarparu rhaglen arweinyddiaeth uwch yn fewnol.

## Integreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses benderfynu, a'r broses o lunio a chyflenwi gwasanaethau

Mae ein **Hadroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2017-2018** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ein gwaith hwn, yn ogystal â data monitro staff, data monitro recriwtio ac ein data cyflog cyfartal. Caiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Ymysg rhai o uchafbwyntiau y flwyddyn mae:

- cael ein henwi gan Stonewall fel y prif gyflogwr ym Mhrydain ar gyfer pobl LGBT, ein nodi ein bod yn “torri tir newydd” gan Stonewall, ein henwi fel y prif gyflogwr sy'n gynhwysol i bobl Traws, a chafodd ein rhwydwaith yn y gweithle ganmoliaeth uchel am ei weithgareddau;
- sefydlu MINDFUL, ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle ar gyfer iechyd meddwl a lles, yn dilyn lansio ein polisi Iechyd Meddwl. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r rhwydwaith wedi hyrwyddo iechyd meddwl a lles a chodi arian ar gyfer elusen;

- ymestyn i gymunedau ledled Cymru i annog cyfranogiad democrataidd ac i hyrwyddo'r Cynulliad fel cyflogwr o ddewis, gan gynnwys yn Pride Cymru, mewn cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon a dathlu menywod mewn gwleidyddiaeth drwy nodi canmlwyddiant ers i fenywod gael yr hawl i bleidleisio. Rydym wedi hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant y tu allan i Gymru yn Senedd Fiji, yng Nghynhadledd Agoriadol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar gyfer Seneddwyr ag Anableddau yn Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir o Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad;
- ail-lunio ein cynllun prentisiaid i gynyddu allgymorth allanol a gwneud y broses ymgeisio yn fwy cynhwysol;
- ein pwyllgorau yn cynnal amrywiaeth o ymchwiliadau yn ymwneud â nifer o bynciau amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys cydraddoldeb a Brexit, ffoaduriaid, hawliau plant ac iechyd meddwl amenedigol; a
- chynnal adolygiad o'n harferion recriwtio i sicrhau eu bod yn gynhwysol.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

teuluoedd sy'n gweithio
newid y ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio

autism friendly awtistiaeth gyfeillgar
The National Autistic Society Cymru / Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

## Bod yn gwbl dryloyw ac yn atebol o ran rheoli'n cyllideb

Mae'n rhaid i'r Comisiwn ddarparu y staff, eiddo a gwasanaethau sy'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflawni ei rôl fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu am gostau rhedeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chostau cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad fel y pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Drwy gydol y flwyddyn, roedd y Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod aliniad â'n strategaeth a'n blaenoriaethau yn gyson. Y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB) sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar fuddsoddi ac adnoddau staffio ac am oruchwylio cyllideb y Comisiwn.

Yn gorfforaethol, roedd gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau gyfrifoldeb i sicrhau bod Cronfa Fuddsoddi'r Comisiwn yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Mae rhagor o wybodaeth am y byrddau hyn a sut y creffir ar y rheolaeth ariannol yn fisol ar gael yn Natganiad Llywodraethu'r Prif Weithredwr a gyhoeddir fel rhan o'r adroddiad hwn.

Eleni, cytunwyd i wneud ein penderfyniadau am y prif feysydd buddsoddi yn fwy tryloyw. Roedd hyn mewn ymateb i'r gwaith o graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17 gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ac, yn benodol, cwestiynau yn ymwneud â'r broses gymeradwyo ar gyfer prosiectau mawr a'r defnydd o danwariant yn erbyn Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. O ganlyniad, mae'r ddogfen Strategaeth Gyllidebol ar gyfer 2018-19 yn cynnwys manylion am y prif feysydd buddsoddi a gynigir yn ystod y flwyddyn a'r ffynonellau cyllid posibl.

...Yn y gorffennol, yn y gwaith o graffu yn ystod y flwyddyn ar gyllideb y Comisiwn, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion â golwg ar wella tryloywder a hwyluso'r gwaith craffu...

...Mae'r Comisiwn eisoes wedi cymryd rhai camau i roi gwybodaeth bellach ynghylch ei gyllideb, ac rydym yn annog y Comisiwn i barhau i roi'r lefel honno o fanylder yn y dyfodol...

...Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gwybodaeth ychwanegol wedi cael ei chynnwys yng nghynnig cyllideb diweddaraf y Comisiwn ar gyfer 2018-19, yn ymwneud â blaenoriaethau buddsoddi a'r defnydd a wneir o unrhyw danwariant. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Comisiwn ac mae'n credu y bydd y tryloywder ychwanegol hwn yn helpu â'r gwaith o graffu ar y gyllideb.....

*Dyfyniadau o* ***adroddiad y Pwyllgor Cyllid***

# Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

## Yr adroddiad ar gynaliadwyedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

O dan Adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd gyfreithiol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn ei holl waith. Rydym yn gwbl ymrwymedig i'r rhan allweddol rydym yn ei chwarae yng nghyswllt hyrwyddo datblygu cynaliadwy, sicrhau bod ein gweithrediadau'n cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd a defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio yn unol â'n targedau newydd a fydd yn mynd â ni at 2020-21, gan gynnwys ein targed sylfaenol o leihau ein hôl troed ynni 30% (ar ein blwyddyn llinell sylfaen). Rydym hefyd yn targedu effeithlonrwydd teithio busnes, a lleihau defnydd o ddŵr tra, ar yr un pryd, ceisio anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2021.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i fod yn sefydliad agored a thryloyw, ac rydym wedi cyhoeddi data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd ers 2007-08. Rydym yn adrodd yn unol â Chanllawiau Adrodd Cynaliadwyedd y Llywodraeth (2017-18), a hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol mwy cynhwysfawr sydd ar gael ar dudalen Cynaliadwyedd ar wefan y Cynulliad, ynghyd â rhagor o wybodaeth amgylcheddol.

## Crynodeb o Berfformiad

Unwaith eto, rydym wedi lleihau ein defnydd o ynni, er y bu cynnydd yn nifer y defnyddwyr ar ein hystâd. Mae dŵr, nwy a thrydan i gyd yn llai na ffigurau'r llynedd, sydd, wrth eu cyfuno â'r ffaith bod grid trydan y DU yn fwy gwyrdd, wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn ein hôl troed carbon.

Mae ein gwaith eleni wedi cynnwys amrywiaeth o fesurau sydd wedi'u hanelu at wella ein heffeithlonrwydd o'n technoleg bresennol, yn ogystal ag edrych ar opsiynau mwy effeithlon ar gyfer adnewyddu. Ynghyd â hyn, rydym bellach wedi gwaredu'r gwastraff a anfonir at safleoedd tirlenwi ac yn symud tuag at darged o gyfanswm y gwastraff a phlastig tafladwy yn benodol.

Rydym wedi cynnal gwaith pellach ar annog teithio carbon isel i'r ystâd ac oddi yno, yn enwedig mwy o feicwyr a'r cerbydau trydan am y tro cyntaf.

Mae ein gwaith amgylcheddol yn gweithredu i system rheoli amgylcheddol a archwilir yn ffurfiol, gan ddefnyddio archwilwyr wedi'u hachredu gan UKAS i wirio ein gwelliannau o ran cynaliadwyedd.

## Ynni

O gymharu â 2016-17, rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd o fiomas i'r Senedd, yn bennaf oherwydd gaeaf hirach ac oerach. Cyfunwyd hyn â chynnydd mewn cost llwch lli o 13%, a arweiniodd at gostau gwresogi cynyddol ar gyfer yr adeilad.

Yn yr un modd â defnydd o nwy, mae ein defnydd wedi gostwng ychydig, ond mae cost fesul uned wedi cynyddu dros 20% ers y flwyddyn flaenorol, yn unol â phrisiau marchnad cyfanwerthu. Drwy ddefnyddio fframweithiau NPS/CCS, rydym wedi dod â'n cyflenwad cyfleustodau o dan ddau brif ddarparwr eleni a fydd yn helpu i sicrhau arbedion dros rai o'r contractau blaenorol.

Mae costau trydan wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf tra bod ein defnydd wedi lleihau ychydig iawn, mae ein gwariant yn y maes hwn wedi cynyddu yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cost uned o fwy na 10%.

Fodd bynnag, mae ein hallyriadau cyffredinol wedi lleihau, o ran meysydd cwmpas unigol ac ein targed sylfaenol o allyriadau ynni yn benodol. Mae'r ffigur allyriadau ynni, diolch yn rhannol i ynni mwy adnewyddadwy yn grid y DU, yn cael ei olrhain ar 27% yn is na'n blwyddyn llinell sylfaen; sydd ar y trywydd iawn o'n targed 30% erbyn 2020-21.

## Teithio

Mae ein ffigurau teithio busnes yn amrywio ar draws cylch pob Cynulliad, ac ar adeg cyhoeddi, mae ein ffigurau ychydig is na'r llynedd. Fodd bynnag, gyda dau fis o hawliadau Aelodau a staff Cymorth yn weddill, rydym yn disgwyl y bydd ein cyfansymiau terfynol yn debyg i'r llynedd.

Mae dulliau teithio wedi amrywio hefyd yn ôl anghenion busnes, ond rydym yn annog y defnydd o opsiynau cynaliadwy lle y bo'n bosibl. Rydym wedi cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer storio beiciau ar y safle eto eleni, er mwyn annog beicwyr, ac rydym wedi gosod mannau gwefru cerbydau trydan yn ddiweddar i'w defnyddio gan staff sy'n gweithio ar yr ystâd. Caiff y rhain eu gweithredu ar lefel cost-niwtral; a bydd defnyddwyr yn gorfodi talu am unrhyw drydan y byddant yn eu defnyddio. Ar gyfer y flwyddyn i ddod, byddwn yn edrych am hyd yn oed fwy o lefydd storio beiciau, yn ogystal ag annog gyrwyr i newid i gerbydau allyriadau isel iawn lle y bo modd. Byddwn yn newid car at ddefnydd pawb y Cynulliad i gerbyd trydan yn bennaf, a fydd yn lleihau ein hôl troed carbon a chostau rhedeg.

## Gwastraff

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod yn gallu adrodd bod ein gweithrediaeth yn ddim gwastraff i safleoedd tirlenwi, cyn ein blwyddyn targed o 2020-21. Mae holl wastraff y Cynulliad yn cael ei anfon bellach i safleoedd ailgylchu neu safleoedd adfer.

Er bod cyfanswm tunelli o wastraff a gynhyrchir wedi cynyddu ychydig dros amser, yn unol â chynnydd yn nifer y defnyddwyr yn yr adeilad, byddwn yn targedu hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio gyda'n cyflenwyr i gael gwared â phlastig untro, y byddwn yn ymrwymo i wneud hynny lle bynnag y bo'n bosibl erbyn diwedd mis Medi 2018 a byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau pecynnu y gellir eu hailddefnyddio.

Mae llai o gasgliadau gwastraff ad hoc, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â seilwaith a gwaith prosiect, yn golygu er bod cynnydd bychan yn faint o wastraff yr ymdrinnir ag ef, mae ein costau wedi lleihau fymryn eleni mewn gwirionedd. Mae gwelliannau arbed cost eraill wedi cynnwys cyfuno casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) i un cyflenwr ar gyfer ein holl weithrediadau. Rydym hefyd wedi gallu dod o hyd i fusnes bach lleol ar gyfer y gwaith hwn sy'n gallu bodloni ein gofynion llywodraethu ac amgylcheddol.

Mae defnydd o bapur yn perthyn i'r categori gwastraff, ac rydym wedi sylwi ar gynnydd yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Fel gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw'r cwsmer, rydym wedi gweld cynnydd mewn ceisiadau argraffu o amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys argraffu adroddiadau sy'n cefnogi busnes a gweithgareddau ymgysylltu eraill. Mae'r holl bapur a ddefnyddiwn yn ardystiedig gan FSC a/neu mae 100% o'r cynnwys wedi ailgylchu. Bydd gwaith pellach dros y flwyddyn i ddod yn cynnwys parhau i gyflwyno'r gwasanaeth argraffu 'dilyn fi' sy'n helpu i leihau faint o argraffu a wneir yn y swyddfeydd.

## Dŵr

Yn dilyn cynnydd bychan yn y defnydd o ddŵr y llynedd, mae ein defnydd eleni wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r defnydd wedi lleihau 32% ar ein blwyddyn llinell sylfaen, gyda chostau wedi lleihau 31% dros yr un cyfnod, ac wedi lleihau 20% ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mae'r gostyngiadau hyn o ganlyniad i nifer o bethau, gan gynnwys amrywiaeth yn nifer y staff ac ymwelwyr. Er bod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu, nid oedd hynny wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nefnydd y dŵr yn y Senedd a'r Pierhead. Rydym wedi parhau i gyflwyno ein dyfeisiadau arbed dŵr lle bynnag y bydd ardal yn cael ei hadnewyddu. Un ffactor arall oedd biliau llai na'r arfer gan Dŵr Cymru, sef rhywbeth y gwnaethom dynnu eu sylw atynt a'r rheswm dros hynny oedd mesurydd diffygiol yn Nhŷ Hywel.

## Gwella parhaus

Mae crynodeb o welliannau a wnaed i'r ystâd a'r ffordd yr ydym yn gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- Rydym wedi dod â'n contractau ynni o dan yr un ddau gyflenwr ar gyfer pob safle, drwy fframweithiau NPS. Mae hyn eisoes wedi gwella eglurder ynghylch

biliau ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn sicrhau rhai arbedion ariannol bychan.

- Gwnaethom newid ein system rheoli amgylcheddol (EMS) i'r safon ryngwladol ISO14001. Rydym yn defnyddio hyn fel sail ar gyfer gwelliant amgylcheddol parhaus ac yn gweld y broses archwilio fel pâr ychwanegol gwerthfawr o lygaid ar ein gwaith.

- Rydym wedi hyfforddi tîm newydd o archwilwyr amgylcheddol mewnol eleni, sef rhywbeth sy'n cefnogi gofynion ein EMS ond hefyd yn amlygu cyfleoedd i wella.

- Rydym yn parhau i weithio ar ein data monitro a gynhyrchwn i geisio sicrhau arbedion ynni effeithlonrwydd, er enghraifft i reoli galw gwresogi lle rydym wedi nodi ardaloedd o'r adeilad sy'n dal gwres yn hirach nag eraill. Rydym hefyd yn parhau â'r rhaglen dreigl o wirio ein holl synwyryddion tymheredd o amgylch yr ystâd, i sicrhau bod y system sy'n rheoli gwresogi ac oeri yn cael data amser real cywir.

- Rydym wedi gosod mannau gwefru cerbydau trydan ar gyfer staff sy'n gweithio ar ein hystâd, a chynyddu maint ein sied feiciau, er mwyn annog defnydd trafnidiaeth allyriadau isel.

- Rydym wedi caffael gwresogyddion IR (is-goch) pellach, ar ôl defnydd llwyddiannus mewn mannau trosiannol sy'n anodd eu gwresogi. Rydym yn gobeithio sicrhau arbedion o'u defnydd y gaeaf nesaf.

- Mae rhai o'r pympiau sy'n gysylltiedig â dŵr poeth ar gyfer y system gwresogi wedi'u disodli ar gyfer unedau mwy effeithlon, yr ydym yn gobeithio eu cyflwyno yn amodol ar gyllid ar gael.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, byddwn yn parhau i osod mesurau arbed ynni mewn ardaloedd sy'n cael eu hadnewyddu, yn ogystal â pharhau i nodi arbedion effeithlon gan ddefnyddio offer sydd gennym eisoes. Byddwn yn parhau i ddarparu mesurau penodol i dargedu lleihau allyriadau teithio ac annog pobl i ddewis opsiynau carbon is fel beicio. Gwastraff fydd un maes y canolbwyntir arno, gyda'r Cynulliad yn ymrwymedig i ddileu plastig untro lle y bo'n bosibl erbyn diwedd mis Medi.

## Ein data

Caiff y ffigurau ynghylch allyriadau yn yr adroddiad hwn eu cyfrifo drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi 2017 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sy'n berthnasol i'r DU yn unig. Yn unol â chanllawiau Defra, ni chaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr eu cywiro i adlewyrchu ffactorau yn ymwneud â'r tywydd. Er nad oes yn rhaid i ni, rydym yn adrodd yn bennaf yn unol â Chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd Trysorlys EM 2017-

18. Caiff ein technegau monitro ac adrodd ar gyfer data cynaliadwyedd cysylltiedig eu hasesu fel rhan o'n harchwiliad amgylcheddol allanol blynyddol.

| ***Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr*** [1,2,3] | | ***2012-13 (llinell sylfaen)*** | ***2014-15*** | ***2015-16*** | ***2016-17*** | ***2017-18*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dangosyddion nad ydynt yn ariannol ($tCO_2e$)* | *Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 1* | 329 | *561* | *248* | *308* | *297* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 2* | 1,470 | *1,480* | *1,367* | *1,133* | *955* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 3* | 432 | *465* | *423* | *396* | *344* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas* | 298 | *130* | *7* | *4.1* | *5.3* |
| | *Cyfanswm allyriadau gros* | 2,588 | *2,636* | *2047* | *1846* | *1601* |
| | *Cyfanswm allyriadau net* | 2,290 | *2,506* | *2040* | *1841* | *1596* |
| *Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso y Llywodraeth)* | | £0 | *£0* | *£0* | *£0* | *£0* |
| *Dangosyddion Ariannol (£)* | *Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon* | Amh | *Amh* | *Amh* | *Amh* | *Amh* |

[1] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

[2] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[3] Ac eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad ac AMSS ar gyfer Chwefror a Mawrth 2018 oherwydd oedi gyda gofynion adrodd.  Mae'r blynyddoedd blaenorol wedi'u haddasu fel hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny sydd wedi'u prosesu.

| ***Y defnydd o ynni*** [4,5] | | ***2012-13 (llinell sylfaen)*** | ***2014-15*** | ***2015-16*** | ***2016-17*** | ***2017-18*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (oriau cilowat) | *Trydan (anadnewyddadwy)* | *3,194,890* | *2,995,138* | *2,791,282* | *2,623,244* | *2,602,054* |
| | *Nwy* | *1,741,299* | *1,295,506* | *1,214,901* | *1,481,681* | *1,452,075* |
| | *Biomas (adnewyddadwy)* | *840,438* | *372,225* | *535,050* | *308,850* | *409,770* |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol ($tCO_2e$) | *Cyfanswm allyriadau ynni* | *1,880* | *1,881* | *1,663* | *1,563* | *1363* |
| Dangosyddion Ariannol (£) | *Cyfanswm y gwariant ar ynni* | *458,168* | *448,586* | *407,442* | *377,993* | *431,187* |

| ***Teithio Swyddogol*** [6,7] | | ***2013-14*** | ***2014-15*** | ***2015-16*** | ***2016-17*** | ***2017-18*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)* | *Teithio ar fusnes* | *884,176* | *1,061,374* | *875,999* | *820,851* | *724,400* |
| | *Cerbydau y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi* | *31,949* | *26,440* | *27,638* | *15,803* | *16,512* |
| *Dangosyddion Ariannol (£)* | *Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol* | *349,775* | *393,509* | *358,666* | *328,532* | *281,196* |

[4] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.

[5] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

[6] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[7] Ac eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad ac AMSS ar gyfer Chwefror a Mawrth 2018 oherwydd oedi gyda gofynion adrodd. Mae'r blynyddoedd blaenorol wedi'u haddasu fel hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny sydd wedi'u prosesu.

| ***Gwastraff*** | | ***2013-14*** | ***2014-15*** | ***2015-16*** | ***2016-17*** | ***2017-18*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)* | *Cyfanswm y gwastraff* | *118* | *125* | *123* | *140* | *142* |
| | *Wedi'i ailgylchu/wedi'i ailddefnyddio* | *111* | *119* | *118* | *136* | *142* |
| | *Tirlenwi* | *6.4* | *4.7* | *3.7* | *5* | *0* *(4t adfer)* |
| | *Gwastraff wedi'i gompostio* | *5.5* | *5.5* | *12.5* | *15.9* | *17* |
| | *Gwastraff peryglus* | *0.5* | *1* | *0.4* | *0.15* | *0.4* |
| | *Papur a brynwyd (A4 ac A5) (fesul miliwn o ddalennau)* | *2.7* | *2.6* | *2.48* | *1.99* | *2.92* |
| *Dangosyddion ariannol (£)* | *Gwariant ar waredu gwastraff* | *26,561* | *26,930* | *33,266* | *36,455* | *33,008* |

| ***Y defnydd o ddŵr*** | | ***2013-14*** | ***2014-15 (llinell sylfaen)*** | ***2015-16*** | ***2016-17*** | ***2017-18*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3)* | *Y defnydd o ddŵr:* | | | | | |
| | *Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol)* | *7,315* | *6,117* | *5,174* | *5,347* | *4,158* |
| | *Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol)* | *1,301* | *1,554* | *502* | *853* | *578* |
| | *Tynnu dŵr (anuniongyrchol)* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* |
| *Dangosyddion ariannol (£)* | *Gwariant ar y gyflenwad a charthffosiaeth* | *23,681* | *22,245* | *18,954* | *19,376* | *15,424* |

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trawsnewid DEFRA ar gyfer 2017 ar gyfer ffigurau cyfatebol carbon deuocsid ($CO_2e$). Mae $CO_2e$ yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystâd weinyddol graidd yn unig. Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Cynulliad, sydd ar gael ar gais.

# Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn barhaus  a mesur y gwelliannau ac adrodd amdano

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, yn ôl y nodau strategol a bennwyd.

Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016-21 sy'n pennu ein nodau ar gyfer y Pumed Cynulliad.  Ein nodau strategol yw:

- darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; a
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, yn ôl y nodau strategol a bennwyd.  Mae'n cynnwys nifer o brif ddangosyddion, a bennwyd yn unol â'r nodau strategol, sydd wedyn yn cael eu rhannu'n ddangosyddion manylach.

Defnyddir system 'goleuadau traffig' i ddangos perfformiad yn erbyn targedau'r dangosyddion. Mae lefelau goddefgarwch yn erbyn y targed wedi'u pennu ar gyfer pob dangosydd, felly caiff perfformiad ar gyfer pob dangosydd ei bennu yn dibynnu ar ble mae'r canlyniadau o fewn y lefelau goddefgarwch.

Coch: Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes.  I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

Oren: Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â hwy.  Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

Gwyrdd: Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu'n mynd rhagddo fel y cynlluniwyd.  Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

## Cyflawniad ar sail Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA):

| Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf | Ebrill 2016 - Mawrth 2017 | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| **DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd**<br>Perfformiad cyson uchel o ran cyhoeddi papurau pwyllgor, papurau briffio a chyhoeddi Cofnod y Trafodion. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol**<br>Fel y disgwyliwyd, mae nifer sy'n manteisio ar weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a oedd yn cynnwys Etholiad Mai 2016 a hyfforddi Aelodau Cynulliad newydd. Cafwyd sgôr uchel am yr effaith gadarnhaol y bydd yn ei gael ar waith cynrychiolwyr. Bu cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg a nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i lefel uwch. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad | Ebrill 2016 - Mawrth 2017 | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| **DPA 3: Meithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol**<br>Bu cynnydd yn y nifer o ymwelwyr â'r ystâd. Mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n ymweld â'r Senedd yn bennaf yn sgil yr arddangosfa Weeping Window a gynhaliwyd dros doriad yr haf. Cafodd yr arddangosfa ei hyrwyddo mewn partneriaeth â'r artist a chafodd y cynnwys ar gyfer yr adeilad ei ddatblygu i helpu i gynyddu dealltwriaeth pobl o'r Cynulliad. Yn ystod misoedd yr haf roedd y Cŵn Eira, sef llwybr a oedd yn annog pobl i archwilio Caerdydd, yn golygu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r Pierhead. Er bod lleihad yn nifer yr ymwelwyr a oedd ar deithiau wedi'u trefnu, roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn darllen y wybodaeth sydd ar gael o amgylch yr adeilad. Bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd. Mae blaenoriaethau'r Comisiwn yn golygu bod adnoddau o'r sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda phobl ifanc yn cael eu defnyddio i helpu i sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad**<br>Fe wnaeth ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol ynghylch Etholiad Mai 2016 ym mis Ebrill a Mai 2016 arwain at gynnydd mawr yn nifer oedd yn edrych ar YouTube ac, fel y | Gwyrdd | Gwyrdd |

| **Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad** | **Ebrill 2016 – Mawrth 2017** | **Ebrill 2017 – Mawrth 2018** |
|---|---|---|
| disgwyliwyd, mae'r ffigurau ar gyfer y cyfnod hwn wedi lleihau o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Os caiff ffigurau ar gyfer mis Ebrill a Mai eu diystyru ar gyfer y ddau gyfnod, mae'r nifer sydd wedi edrych ar YouTube wedi cynyddu rhywfaint eleni. Mae ffrydio'r Cyfarfod Llawn ar YouTube wedi arwain at gynnydd yn y munudau sy'n cael eu gwylio hefyd. Bu cynnydd sylweddol yn argraffiadau Twitter ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn o ganlyniad i ymgyrch lwyddiannus iawn yn y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer arddangosfa Weeping Window. | | |

| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | **Ebrill 2016 – Mawrth 2017** | **Ebrill 2017 – Mawrth 2018** |
|---|---|---|
| **DPA 5: Gwariant yn erbyn y targed**<br><br>Nodir arbediad contract o tua £138K. Mae prydlondeb taliadau i gyflenwyr ac Aelodau'r Cynulliad yn parhau i fod ymhell o fewn y targed. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **DPA 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu**<br><br>Mae cyfraddau absenoldeb ar gyfer cyfartaledd 12 mis treigl wedi dangos cynnydd ymylol yn sgil ffactorau tymhorol a chynnydd mewn achosion o salwch hir dymor. Mae materion iechyd meddwl yn parhau i fod yn un o'r achosion absenoldeb uchaf. Mae cyfraddau absenoldeb cyfartalog yn is na ffigur meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) o 3.7%, ond yn uwch na tharged y Comisiwn o 3%. Roedd gostyngiad yn nifer yr adolygiadau perfformiad staff a gwblhawyd erbyn y terfyn amser; ac er bod gostyngiad yn nifer y bobl a gwblhaodd yr arolwg staff blynyddol, mae'r gyfradd ymateb yn dal i fod yn uwch na Chanolrif y Gwasanaeth Sifil. | Oren | Oren |
| **DPA 7: Gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu fel y cynlluniwyd**<br><br>Mae rhai achosion, fel diffygion gyda chaledwedd, yn cymryd mwy o amser i'w datrys ac wedi arwain at rywfaint o ostyngiad mewn cyflawniad yn erbyn targedau cytundeb SLA. Fodd bynnag, mae rhaglen newydd bellach ar y gweill i ddiweddaru caledwedd y Comisiwn a fydd yn ei gwneud yn fwy dibynadwy dros y pum mlynedd nesaf. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Ebrill 2016 - Mawrth 2017 | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| **DPA 8: Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl y gofyn**<br><br>Cafwyd nifer fawr o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn gyda phedwar o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn mynd heibio'r dyddiad cau statudol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y broses ymgynghori yn digwydd o fewn y toriad gan achosi oedi wrth gael yr ymatebion gofynnol. | Oren | Oren |
| **DPA 9: Targedau amgylcheddol yn cael eu cyrraedd fel y cynlluniwyd**<br><br>Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud yn erbyn y gostyngiad yng nghyfanswm yr allyriadau ynni. Mae'r Comisiwn wedi sicrhau gostyngiad o 27% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni o'i gymharu â llinell sylfaen 2012-13 ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o ostyngiad o 30% erbyn 2021. Mae'r targed o ddargyfeirio 100% o'r gwastraff o safleoedd tirlenwi bellach wedi'i gyrraedd, cyn y dyddiad targed o 2021. | Gwyrdd | Gwyrdd |

## Nod strategol: Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

| DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd[8] | Targed | Ebrill 2016 - Mawrth 2017 | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| Canran y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor | **100%** | 95.8% | 95.4% |
| Canran Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser | **100%** | 100% | 100% |
| Canran Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | **100%** | 96.3% | 98.5% |
| Canran o drafodion y Cynulliad (cyfarfodydd pwyllgor/Cyfarfod Llawn) yr effeithiwyd arnynt oherwydd | **0%** | 0.3% (1 allan o 350) | 0% (0 allan o 415) |

[8] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd[8] | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| methiant i ddarparu gwasanaethau'r Comisiwn | | | | |
| Canran yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno | **100%** | 98.4% | 99.5% | ● |

| DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a lenwyd gan Aelodau'r Cynulliad[9] | **180** | 334 | 143 | ● |
| Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus a lenwyd gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad [10] | **350** | 660 | 586 | ● |
| Y graddau y mae Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn disgwyl i'r hyfforddiant a ddarparwyd gael effaith gadarnhaol ar eu gwaith [11] | **70% effaith gadarnhaol** | 97.7% | 98.2% | ● |
| Nifer y Dysgwyr Cymraeg (staff y Comisiwn, Aelodau Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad) sy'n cael hyfforddiant drwy'r Tîm Sgiliau Iaith [12] | **-** | 95 | 131 | - |
| Nifer y dysgwyr Cymraeg sy'n symud ymlaen i lefel uwch | **-** | - | 34 | - |

[9] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[10] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[11] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[12] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

Nod strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

| DPA 3: Meithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymwelwyr â:[13] | | | |
| ▪ Y Senedd | **I'w gynnal ym mhob cyfnod** | 83,680 | 108,778 |
| ▪ Pierhead | | 82,962 | 99,523 |
| Nifer yr ymwelwyr ar deithiau [4] | **I'w gynnal ym mhob cyfnod** | 26,305 | 23,238 |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o fynd ar daith o amgylch yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [14] | **80%** | 100% | 100% |
| Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd [4] | **Cynnydd ar y cyfnod blaenorol** | 263 | 308 |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o drefnu digwyddiad ar yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [5] | **80%** | 98.7% | 98.0% |
| Nifer y sesiynau codi ymwybyddiaeth gyffredinol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gyda phobl ifanc [4] | **I'w gynnal ym mhob cyfnod** | 873 | 643 |

| DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| Traffig ar y we: [15] | | | |
| ▪ Ymwelwyr | **I'w gynnal ym mhob cyfnod** | 45,940 | 50,162 |
| ▪ Ymweliadau | | 87,553 | 91,046 |
| ▪ Achosion o agor tudalen benodol | | 281,797 | 265,990 |

[13] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[14] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[15] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| Facebook: | I'w gynnal ym mhob cyfnod | | |
| ▪ Cyrhaeddiad Cyfartalog [16] | | 9,847 | 13,039 |
| ▪ Hoffi [17] | | 9,067 | 10,345 |
| Twitter: | I'w gynnal ym mhob cyfnod | | |
| ▪ Argraffiadau (nifer y bobl a welodd y cynnwys) [18] | | 847,175 | 5,099,358 |
| ▪ Dilynwyr (y prif gyfrif corfforaethol) [19] | | 44,215 | 48,723 |
| ▪ Dilynwyr (cyfrifon eraill)[20] | | 28,270 | 30,225 |
| YouTube: [21] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | | |
| ▪ Faint o bobl a oedd wedi edrych arno | | 102,478 | 29,072[22] |
| ▪ Munudau a wyliwyd | | 93,233 | 182,318 |
| Defnydd o Senedd.tv: [23] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | | |
| ▪ Faint o bobl a oedd wedi edrych arno | | 386,576 | 344,470 |
| ▪ Defnyddwyr | | 58,650 | 52,247 |
| Blog y Gwasanaeth Ymchwil[24] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | | |
| ▪ Defnyddwyr (Cymraeg a Saesneg) | | 138,426 | 185,256 |

[16] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[17] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[18] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[19] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[20] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[21] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[22] Mae ffigurau 2016/17 yn cynnwys canlyniadau anarferol o uchel ar gyfer mis Ebrill a Mai 2016 oherwydd ymgyrch Etholiad 2016, a gynyddodd nifer y bobl wnaeth wylio ein sianel YouTube. Drwy ddiystyru Ebrill a Mai o'r ddau gyfnod adrodd, mae'r rhai sydd wedi gwylio YouTube wedi cynyddu rywfaint yn 2017/18.

[23] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[24] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

## Nod strategol: Defnyddio adnoddau'n ddoeth

| DPA 5: Gwariant yn erbyn y targed | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| Rhagolwg o ganran y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn [25] | **<0.5%** | 0.4% | 0.8% |
| Cyrraedd y nod o sicrhau gwerth am arian [26] | **£100,000** | - | £138,116 |
| Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu cyflenwyr ar gyfartaledd [27] | **<10 diwrnod** | 5.9 | 4.2 |
| Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu Aelodau'r Cynulliad ar gyfartaledd [28] | **<5 diwrnod** | 2.0 | 1.9 |

| DPA 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| Absenoldeb salwch – % y cyfartaledd treigl dros 12 mis [29] | **<3%** | 3.5% | 3.8% |
| Absenoldeb salwch – % y cyfartaledd misol [30] | **<3%** | 3.8% | 3.2% |
| Cwblhau adolygiadau perfformiad staff (ddwywaith y flwyddyn – Ebrill a Hydref) | **100%** | 95.9% | 89.5% |
| Cyfradd ymateb cyflogeion i'r arolwg staff blynyddol [31] | **65% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd.** | 85.0% | 82.0% |
| Lefel ymgysylltiad cyflogeion yn erbyn y 5 cwestiwn craidd yn yr arolwg staff blynyddol | **58% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar** | 72.0% | 74.0% |

[25] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[26] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[27] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[28] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[29] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[30] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[31] Caiff yr arolwg staff blynyddol ei gwblhau ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn.

| DPA 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | **hyn o bryd.** | | | |
| Nifer y staff: [32] | | | | |
| ▪ Nifer y staff | **-** | 466 | 468 | - |
| ▪ Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn | **-** | 448.0 | 444.6 | - |

| DPA 7: Gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu fel y cynlluniwyd [33] | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| Targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos | **90%** | 91.3% | 89.2% | |
| Sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9) | **8** | 8.8 | 8.7 | |

| DPA 8: Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl y gofyn [34] | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a atebwyd | **-** | 75 | 78 | - |
| Canran y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol | **100%** | 90.7% | 94.9% | |

[32] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[33] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[34] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

| DPA 9: Targedau amgylcheddol yn cael eu cyrraedd fel y cynlluniwyd [35] | Targed | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd) | **Gostyngiad o 30% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn 2021** | 17.1% | 27.0% | |
| Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi | **100% erbyn 2021** | 96.6% | 100% | |

## Arolwg Boddhad Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth

Gofynnwyd i'r Aelodau Cynulliad a staff cymorth gwblhau arolwg boddhad blynyddol er mwyn helpu i fesur pa mor dda y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan staff y Comisiwn wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cwestiynau yn defnyddio graddfa 10 pwynt, lle mae 1 = gwael a 10 = ardderchog. Mae crynodeb o'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno yma.

| Nod strategol – Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | Targed | 2017 | 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| Y cymorth cyffredinol i Bwyllgorau'r Cynulliad | 8 | 8.5 | 8.4 | |
| Y cymorth cyffredinol i'r Cyfarfod Llawn | 8 | 8.4 | 8.4 | |
| Y cymorth cyffredinol ar gyfer gwaith etholaethol | 8 | 8.2 | 8.4 | |
| Y cymorth cyffredinol i ymgymryd â'ch gwaith yn eich dewis iaith | 8 | 8.9 | 8.4 | |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan Cymorth Busnes i'r Aelodau | 8 | 8.9 | 8.9 | |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir drwy'r swyddogaeth Datblygiad Proffesiynol | 8 | 8.3 | 8.2 | |

[35] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

| Nod strategol - Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad | Targed | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|
| Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth ymgysylltu â phobl Cymru | 8 | 6.9 | 6.9 |
| Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth hyrwyddo gwaith y Cynulliad | 8 | 7.0 | 6.8 |

| Nod strategol – Defnyddio adnoddau'n ddoeth[36] | Targed | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn Nhŷ Hywel | 8 | 8.3 | 8.4 |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn y Senedd | 8 | 8.4 | 8.3 |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn y swyddfeydd etholaethol neu'r swyddfeydd rhanbarthol | 8 | 7.9 | 8.3 |
| Y dewis cyffredinol o offer TGCh sydd ar gael | 8 | 7.9 | 8.0 |
| Cefnogaeth gyffredinol a ddarperir yn Nhŷ Hywel, y Pierhead a'r Senedd | 8 | 8.7 | 8.1 |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer y swyddfeydd etholaeth neu ranbarthol | 8 | 8.0 | 7.7 |

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 16 Gorffennaf 2018

[36] Caiff y data eu dangos fel sgôr cyfartalog a ddarperir gan Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth.



# EIN HATEBOLRWYDD: LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL



# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i gymeradwyo gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio berthnasol.

## Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, a'r Comisiynwyr wedi'i chynnwys ar dudalennau 102 – 104.

## Cynghorwyr annibynol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau'r Pwyllgor Annibynnol wedi'i chynnwys ar dudalennau 106 – 108.

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor Taliadau wedi'i chynnwys ar dudalen 108.

## Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am y Prif Weithredwr a'r Clerc a chyfrifoldebau'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i chynnwys ar dudalennau 109 – 110.

## Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

## Trafferthion yn ymwneud â data personol

Roedd un achos o ddata personol yn cael ei golli rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd tri achos o dorri'r rheolau ar ddata personol yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli yn fewnol. Gan fod y tebygolrwydd o achosi niwed neu ofid i

wrthrych y data yn yr achosion hyn yn isel, barnwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w weld ar dudalen 127.

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol yw £57,958 (£62,958 2016-17). Ni chynaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2017-18 (£0 2016-17).

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- Rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sefydlu bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y cyfarwyddyd o ran cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir ar dudalennau 122 i 137yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi, ac mae nodiadau esboniadol yn eu hategu.  Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Cynulliad a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

---

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 16 Gorffennaf 2018

---

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

## Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn; yr alldro adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

---

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 16 Gorffennaf 2018

---

# Datganiad llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi sut y caiff Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei faterion, hwyluso'r broses o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y strwythurau, y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r sefydliad a'r gweithgarwch sy'n ei wneud yn atebol i'r Cynulliad a phobl Cymru ac sy'n ei ymgysylltu â hwy.  Mae'n cynnwys fframweithiau ar gyfer: cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; caffael; a rheolaeth ariannol. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Mae gennym bolisïau clir hefyd yn ymwneud â thwyll, llygredigaeth, llwgrwobrwyaeth a chwythu'r chwiban. Mae'r fframwaith llywodraethu yn galluogi'r Comisiwn i gynllunio ar gyfer, a monitro, sut y mae wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion strategol ac ystyried a yw hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

## Strwythur llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Aelod Cynulliad arall a benodir gan y Cynulliad ac sy'n cynrychioli'r prif bleidiau. Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Cynulliad. Maent yn pennu amcanion a nodau strategol y sefydliad, yn darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith ac yn goruchwylio ac yn adrodd ar yr hyn a gyflawnir. Mae pob Comisiynydd yn cael portffolio o feysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Mae'n atebol i'r Comisiwn am gyflawni ei nodau strategol. Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, hi sy'n atebol i'r Cynulliad am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yng Nghomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Mae staff y Cynulliad yn gyflogeion y Comisiwn.

Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r sefydliad, mae gan y Comisiwn **Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**[37] a Phwyllgor Taliadau. Mae rhagor o wybodaeth am y pwyllgorau hyn ar gael ar dudalen 108 o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Mae **Bwrdd Taliadau**[38] annibynnol yn pennu cyflogau a chymorth ariannol arall ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Taliadau hefyd yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu **cyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol**[39], a gafodd eu diweddaru yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Mae'r egwyddorion yn gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus. Cânt eu defnyddio i lywio gwaith y Comisiwn a'i staff. Mae'r Comisiwn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion hyn.

Mae adran ar Sicrwydd y datganiad hwn yn disgrifio sut y cafodd tystiolaeth yn y maes hwn ei chasglu drwy ddatganiadau sicrwydd a thrwy ddefnyddio'r Fframwaith Sicrwydd.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir amcanion a nodau strategol y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn dirprwyo llawer o'i swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae'r **ddirprwyaeth ffurfiol**[40] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif

[37] http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=373

[38] http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=375

[39] http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/comm-corporate-framework/Pages/governance_principles_supporting_provisions.aspx

[40] http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/comm-corporate-framework/Pages/delegation_of_assembly_commission_functions.aspx

Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn arnynt. Mae system lywodraethu o awdurdodau dirprwyedig wedi'i sefydlu hefyd at ddibenion rheoli adnoddau, sy'n cynnwys cyllid, staffio a chyfrifoldebau eraill sy'n ymwneud ag adnoddau, fel caffael. Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu rhwng tair Chyfarwyddiaeth. Busnes y Cynulliad, Adnoddau'r Cynulliad a Gwasanaethau'r Comisiwn, gan adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn aelod o Gyfarwyddiaeth Adnoddau'r Cynulliad. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar dudalenn 18 o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Ym mis Gorffennaf 2018, bydd Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad yn gadael Comisiwn y Cynulliad. Mae trefniadau rheoli dros dro wedi'u sefydlu ar gyfer Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad, cyn sefydlu trefniadau parhaol newydd tuag at ddiwedd 2018.

Mae Cyfarwyddiaethau Comisiwn y Cynulliad wedi'u hisrannu i feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Drwy gydol 2017-18, mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth wedi cwrdd yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn rheolaidd fel Bwrdd Rheoli, i adolygu, cydgysylltu a gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth am bolisi a materion gweithredol. Mae'r Bwrdd hefyd wedi monitro perfformiad corfforaethol a risgiau corfforaethol mewn perthynas â chyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Rheoli weithredu mewn modd corfforaethol er budd y Cynulliad.

Mae Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr, wedi bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau ar gyfer cyllid o Gronfa Fuddsoddi ac ar gyfer dyrannu adnoddau yn ystod 2017-18. Mae'r Bwrdd hwn hefyd wedi goruchwylio cyllideb y Comisiwn ac wedi cytuno ar flaenoriaethau buddsoddi ac adnoddau

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar gyflawni rhaglenni a phrosiectau o fewn eu Cyfarwyddiaethau er mwyn darparu sicrwydd parhaus ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau.

Cyflwynodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd adolygiad effeithiolrwydd terfynol o'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ym mis Mawrth 2017, a daeth i'r casgliad bod y Bwrdd yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd bositif a bod awydd clir gan bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn i'r Bwrdd symud ymlaen a pharhau i ychwanegu gwerth at drefniadau llywodraethu Comisiwn y Cynulliad.  Nodwyd nifer o gryfderau, gan gynnwys cadernid craffu ac ymrwymiad i dryloywder. Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn nodwyd meysydd gwella, yn

arbennig o ran eglurhad o rôl y Bwrdd yn y trefniadau llywodraethu cyffredinol a'i gydberthynas â'r Bwrdd Rheoli.

Yn dilyn adolygiad y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi manteisio ar y cyfle i adolygu'r strwythur llywodraethu presennol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben. Ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a'r Bwrdd Rheoli, mae strwythur llywodraethu newydd wedi'i sefydlu, o fis Ebrill 2018, er mwyn helpu i egluro'r cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Gweithredol a Thîm Arweinyddiaeth, sy'n disodli'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a'r Bwrdd Rheoli o'r flwyddyn ariannol 2018-19 ymlaen.

O dan y trefniadau newydd, y Bwrdd Gweithredol fydd yr unig gorff sy’n gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithredu fel corff cynghori i Gomisiwn y Cynulliad, i sicrhau ei fod yn cael y cyngor gorau posibl o ran pennu strategaeth y Comisiwn, nodau a blaenoriaethau, y gyllideb, ac wrth wneud penderfyniadau. Mae’r Bwrdd Gweithredol yn monitro’r gyllideb, yn cytuno ar flaenoriaethau buddsoddi a blaenoriaethau o ran adnoddau, yn goruchwylio risgiau corfforaethol ac yn goruchwylio rheoli newid. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn rhoi eu cyfrifoldebau rheoli llinell o’r neilltu ac yn cymryd rhan, gyda chylch gorchwyl i weithredu er budd y sefydliad cyfan.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn gorff cynghori i'r Bwrdd Gweithredol ac yn alluogwr ar gyfer cyflwyno cynlluniau gweithredol, blaenoriaethau a'n trefniadau llywodraethu yn effeithiol. O dan y trefniadau newydd, mae'n amlwg mai'r Bwrdd Gweithredol sy'n gosod blaenoriaethau gweithredol yn seiliedig ar strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae gan y Tîm Arweinyddiaeth y rhyddid i ddatblygu ei rôl o ran creu syniadau a her adeiladol. Yn ogystal, atgyfnerthwyd ei rôl fel fforwm ar gyfer rhannu a lledaenu gwybodaeth. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cael ei ddefnyddio i hwyluso ymarferion cynllunio senario a dadansoddi opsiynau, a chefnogi'r Bwrdd Gweithredol drwy gynnal ymarfer blaenoriaethu cam cyntaf ar gyfer yr holl fuddsoddiadau arfaethedig. Mae aelodaeth y Tîm Arweinyddiaeth wedi'i ymestyn o'r Bwrdd Rheoli blaenorol i gynnwys yr holl Benaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn parhau i ddod i’r cyfarfodydd, ond mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan yr aelodau yn eu tro.

Y bwriad yw grymuso Penaethiaid Gwasanaeth a'u hannog i reoli eu timau gyda mwy o awdurdod, drwy ddirprwyo mwy o gyfrifoldeb ariannol ac adnoddau iddynt o fewn fframwaith llywodraethu a sicrwydd priodol y cytunir arno.

## Cynllunio a mesur perfformiad

Mae **strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad, 2016-21**, y cytunwyd arni ym mis Mehefin 2016, yn rhoi cyfarwyddyd ac yn llywio gwaith cynllunio ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth. Mae'r strategaeth yn parhau i gael ei hadolygu i ystyried gyrwyr a dylanwadau allanol sy'n ffurfio gwasanaethau'r Comisiwn, gan gynnwys newid cyfansoddiadol a'r byd digidol sy'n newid.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi ymgymryd â gwaith craffu ddwywaith y flwyddyn ar gynlluniau gwasanaeth a chynlluniau capasiti sy'n helpu i sicrhau gwaith cynllunio effeithiol ar gyfer gofynion y Comisiwn heddiw ac yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Perfformiad Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n dangos perfformiad uchel parhaus mewn nifer o wasanaethau, a gwelliannau mewn meysydd penodol lle gwnaed ymdrechion arbennig. Mae adolygiad o fesurau perfformiad ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad ar y gweill gyda'r nod o nodi mesurau mwy perthnasol a heriol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym yn cydnabod y bydd y rhain yn cymryd amser i'w datblygu.

Yn unol â'n nod strategol o ddefnyddio adnoddau'n ddoeth, rydym bob amser wedi herio a ydym yn gwneud pethau yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol. Eleni, mewn ymateb i ragor o waith craffu gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad, gofynnodd y Comisiwn i'r Prif Weithredwr gynnal adolygiad ffurfiol o gapasiti'r sefydliad. Roedd Cam 1 yr Adolygiad hwn o Gapasiti yn ddarn sylweddol o waith gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn amserlen fer.

Mae adroddiad cychwynnol yr adolygiad yn amlinellu pedwar maes gweithredu:

- Cytuno ar flaenoriaethau
- Cynllunio a chyflwyno gwell
- Mwy o ystwythder mewn capasiti a gallu
- Datblygu dealltwriaeth a rennir

Mae'r Comisiwn wedi derbyn yr adroddiad hwn ac mae Grŵp Llywio, sy'n cynnwys uwch-reolwyr o bob rhan o'r Comisiwn ac wedi'i arwain gan Gyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad, wedi'i sefydlu i ddatblygu a chyflwyno atebion o dan y pedwar maes gweithredu hyn.

Gwnaed cynnydd da eisoes ar nifer o ddatblygiadau. Rydym wedi:

- ymgysylltu â'r Comisiwn, Fforwm y Cadeiryddion Pwyllgor a'r Pwyllgor Busnes ynghylch cynllunio adnoddau ar gyfer Brexit;
- sicrhau aliniad gwell o'n gwasanaeth a'n gwaith cynllunio capasiti gyda'r cylch cynllunio cyllideb, gan alluogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a chynllunio hirdymor mwy effeithiol;
- ailstrwythuro ein trefniadau rheoli uwch; a
- datblygu meini prawf blaenoriaethu i gefnogi blaenoriaethu cyson ac effeithiol gyda thystiolaeth glir o gyfleoedd buddsoddi.

Bydd y Grŵp Llywio yn dod i gasgliad ac yn adrodd ar ei waith ym mis Gorffennaf 2018.

## Cynnydd a pherfformiad

### Cynnydd ar feysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad

Yn Natganiad Llywodraethu y llynedd, nodwyd nifer o feysydd ar gyfer ffocws a datblygiad. Amlinellir y cynnydd isod:

**Cynigion i fynd i'r afael â chapasiti'r Cynulliad, diwygio etholiadol, newid cyfansoddiadol pellach a pharatoadau ar gyfer Brexit**

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cefnogi uchelgais y Llywydd a'r Comisiwn i archwilio sut y gellid arfer y pwerau newydd o dan Ddeddf Cymru 2017 i ddiwygio'r Cynulliad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad hygyrch sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn effeithiol. Darparodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2017, nifer o opsiynau ar gyfer newid, gydag ystyriaeth gadarn o dystiolaeth a chyfarwyddyd. Mae hyn wedi ffurfio sail ar gyfer papur ymgynghori Comisiwn a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018. Daeth yr ymgynghoriad i ben yn nechrau mis Ebrill 2018.

Mae'r gwaith wedi golygu gweithio'n agos gyda Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol er mwyn sicrhau ymgysylltiad trawsbleidiol drwy gydol. Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori.

Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion ar gyfer diwygio etholiadau Llywodraeth Leol. Felly, rydym wedi rhoi blaenoriaeth uchel i

gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r system etholiadol yng Nghymru yn gydlynol ac mor gydgysylltiedig â phosibl. O gofio'r amserlenni tyn posibl y byddai angen cyflwyno unrhyw ddiwygio o'u mewn, mae cynllunio adnoddau'n effeithiol hefyd wedi bod yn flaenoriaeth.

Ym mis Mehefin 2017, yn dilyn cyfnod o ymgynghori a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2017, cytunodd y Comisiwn i gyflwyno deddfwriaeth cyn diwedd 2018 i newid enw'r Cynulliad cyn diwedd tymor y Cynulliad yn 2021 i Senedd Cymru/Welsh Parliament.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r pwerau newydd a ddatganolwyd i'r Cynulliad o dan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017. O dan y Ddeddf, daeth trethi newydd Cymru, a ddeddfwyd gan y Cynulliad (trafodiadau tir (y dreth stamp gynt) a gwarediadau tirlenwi) i rym ar 1 Ebrill 2018.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi bod yn ymateb i Ddeddf Cymru 2017 drwy ddiweddaru gweithdrefnau a Rheolau Sefydlog. Daeth y newid o Setliad Rhoi Pwerau i Setliad Cadw Pwerau i rym ar 1 Ebrill 2018. Ymgymerwyd â chodi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer Aelodau, eu Staff Cymorth a staff y Comisiwn er mwyn helpu i ddeall goblygiadau'r newid a pharatoi ar gyfer gweithio o fewn y setliad newydd.

Mae Pwyllgorau'r Cynulliad, staff y Llywydd a'r Comisiwn wedi bod yn rhan bwysig o ymateb y Cynulliad i Brexit a'r paratoadau ar ei gyfer. Cafwyd cynnydd yn lefel y gwaith rhyngseneddol er mwyn galluogi cymorth ac ymateb mwy effeithiol ynghylch goblygiadau Brexit.

Mae staff sy'n cefnogi pwyllgorau wedi helpu'r Aelodau i fod yn ymwybodol o'r sefyllfa gyfansoddiadol, deddfwriaethol a gwleidyddol gymhleth sy'n esblygu'n gyflym ac i gyhoeddi allbynnau cyflym ac amserol i wneud y mwyaf o ddylanwad y Cynulliad. Un o'r heriau mwyaf arwyddocaol oedd hwyluso'r broses o graffu ar y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), sef dim ond yr ail Fil yn hanes y Cynulliad a gyflwynwyd dan y Weithdrefn Frys ac a gwblhaodd ei holl gamau deddfwriaethol mewn dim ond tair wythnos.

Bydd y pwysau cyfansoddiadol sylfaenol hyn yn parhau i ddominyddu gwaith nifer o staff y Comisiwn yn y flwyddyn sydd i ddod ac yn dylanwadu ar benderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn sgil yr adolygiad o gapasiti.

Mae'r risgiau o ran capasiti corfforaethol i gyflawni holl nodau'r Comisiwn a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg wedi'u monitro gan Gyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad a'r Bwrdd Rheoli. Darparwyd diweddariadau rheolaidd i Bwyllgor

Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn sydd wedi helpu i sicrhau bod dulliau lliniaru risg effeithiol ar waith. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael o dan yr adran Nodi a Rheoli Risg yn y datganiad hwn.

**Ffurfio cynigion y gyllideb ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn sy'n galluogi cyflwyno blaenoriaethau'r Comisiwn ac ennill cefnogaeth y Cynulliad ar gyfer y cynigion**

Mae gwariant yn erbyn y gyllideb wedi'i fonitro'n agos bob pythefnos gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau blaenorol drwy gydol 2017-18 a bydd hyn yn parhau gyda'r Bwrdd Gweithredol sydd newydd ei sefydlu wrth symud ymlaen. Mae'n amlwg na fydd y Gronfa Fuddsoddi debygol sydd ar gael yn ddigonol i ganiatáu i holl gynigion y prosiect ar gyfer 2018-19 gael eu datblygu. Bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n gyson fel bod gan y Bwrdd Gweithredol syniad clir o'r gwariant ymrwymedig wrth ystyried cynigion prosiect newydd.

Mae ail gam yr Adolygiad o Gapasiti wedi dechrau gan ffurfio Grŵp Llywio Cynllunio Capasiti. Adroddwyd y canfyddiadau cychwynnol i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gweithredol ym mis Ebrill 2018.

Mae amserlen Cylch Cynllunio newydd wedi'i dosbarthu a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Pennaeth Gwasanaeth gwblhau ei waith cynllunio gwasanaeth ar gyfer 2019-20 erbyn mis Mawrth 2018. Bydd hyn yn llywio Strategaeth y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cwblhau ymchwiliad i driniaeth y Penderfyniad mewn Seneddau eraill. Rydym yn cysylltu â'r Pwyllgor i fynd i'r afael â'r argymhellion a godwyd ganddynt o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ei wariant cyllideb mewn ymateb i bwysau sy'n dod i'r amlwg a'r gostyngiad yn yr hyblygrwydd a achosir gan gyfyngiadau cyllidebol.  Wrth symud ymlaen, mae'r Comisiwn yn cynnig newid i'w gyllideb i leihau neu ddileu dibyniaeth ar danwariant. Mae’r Comisiwn wrthi’n ystyried opsiynau eraill o ran cyflwyno'r gyllideb.

**Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ystod o bryderon diogelwch sylweddol**

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn ystod eang o reolaethau diogelwch corfforol sydd ar waith ar draws ystâd y Cynulliad. Rydym hefyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth ynghylch atal a chynnal adolygiadau rheolaidd o'r rheolaethau.

### Adolygu defnydd ac effeithiolrwydd y system ariannol NAV newydd

Lansiwyd y system gyllid newydd yn llwyddiannus ar 3 Ebrill 2017. Mae hyn wedi creu arbedion effeithlonrwydd yn y tîm cyllid, mae'n darparu gwybodaeth amser real i ddeiliaid cyllideb a thrwy hynny wedi gwella adroddiadau rheoli ariannol ac mae wedi cyfrannu at reolaethau cryfach o ran caffael.

Nododd adroddiad archwilio mewnol ar reolaethau ariannol allweddol nifer o feysydd yr oedd angen mynd i'r afael â hwy ond roedd y rhain yn bennaf yn ymwneud â'r pwysau sy'n gysylltiedig â chyflwyno system newydd yn hytrach nag ymarferoldeb y system newydd. Wrth i'r system gael ei sefydlu, mae staff wedi gallu rhoi lefel ddigonol o sylw i'r rheolaethau ariannol craidd a chafodd yr holl argymhellion archwilio eu gweithredu'n gyflym a'u bodloni i foddhad yr archwiliad mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r Tîm Cyllid yn parhau i gydgysylltu'n agos â datblygwyr y system i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau system sy'n codi a sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad yn parhau i fanteisio ar yr holl ymarferoldeb a'r manteision a ddaw i'r sefydliad yn sgil y system NAV.

Rhoddodd un o Gynghorwyr Annibynnol y Comisiwn gyngor i'r Uwch-berchennog Cyfrifol, y Rheolwr Prosiect a'r Bwrdd Prosiect drwy gydol oes y prosiect ac mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cael diweddariadau.

Cwblhawyd adroddiad cau prosiect a amlygodd y gwersi a ddysgwyd a'r ffyrdd effeithiol y cafodd y prosiect ei reoli a'i gyflawni'n llwyddiannus. Cyflwynwyd yr adroddiad i Gymuned Ymarferwyr Rheoli Prosiectau Comisiwn y Cynulliad a chafodd ei ganmol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel enghraifft dda o sut i gau prosiect.

### Bydd y prosiect i sicrhau adeilad yn y dyfodol ar gyfer y Cynulliad yn gofyn am ddatblygu a gweithredu trefniadau llywodraethu, rheoli a sicrhau ffurfiol

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi achos busnes mewn perthynas â phrosiect adeilad posibl yn y dyfodol. Mae'r risg o ran adeilad yn y dyfodol wedi'i gynnwys yn ein cofrestr risg gorfforaethol a chaiff ei fonitro'n rheolaidd gan fyrddau llywodraethu mewnol y Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae gennym nifer o reolaethau ar waith i liniaru yn erbyn y risg o gael digon o gapasiti yn ein hystâd ym Mae Caerdydd i gwrdd ag unrhyw bwysau ychwanegol sy'n gysylltiedig â thwf y Cynulliad yn y dyfodol.

### Gwelliannau i gyfathrebu mewnol, gyda mwy o ymgysylltu yn ystod cyfnod o newid

Mae ymgysylltiad staff a chael sianeli cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i'n gallu i sicrhau safonau uchel o wasanaeth. Mae nifer o ddatblygiadau dros y cyfnod hwn wedi cynnwys:

- y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda staff yn rheolaidd;
- cyfarfod holl staff yn ystod mis Rhagfyr 2017, i gyfleu canfyddiadau cychwynnol yr Adolygiad o Gapasiti. Dilynwyd hyn ym mis Mawrth 2018, gyda thair sesiwn gyda nifer lai o staff. Roedd y sesiynau hyn yn ymarferion gweithdy mwy rhyngweithiol a oedd yn canolbwyntio ar ganfasio barn staff ar ddatblygu ac adnewyddu ein gwerthoedd sefydliadol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn unol â'r egwyddorion hyn a Chod Ymddygiad staff - rhoddwyd cyfle i'r holl staff gyfrannu at hyn. Rydym wedi cael rhywfaint o adborth cadarnhaol cychwynnol o'r dull hwn a byddwn yn parhau i ddysgu gwersi ac ystyried yr adborth gan staff wrth inni gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol; ac
- mae gwaith ar y gweill i edrych ar ein dulliau o gyfathrebu mewnol yn y dyfodol, gan gynnwys y gydnabyddiaeth fod angen i ni wella ein mewnrwyd.

## Perfformiad

Cynhaliwyd yr arolwg staff blynyddol a oedd yn seiliedig ar gwestiynau dethol o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Pensiwn ym mis Mai 2017. Cofnodwyd cyfanswm o 382 (82 y cant) o ymatebion, sy'n cefnogi sut y mae ein sgôr ymgysylltu â chyflogeion wedi codi i 74 y cant eleni (72 y cant y llynedd) - dim ond un sefydliad gwasanaeth sifil yn y DU oedd â sgôr mynegai ymgysyllitad uwch. Roedd pob thema yn yr arolwg yn parhau i fod yn gadarnhaol i raddau helaeth - sy'n cymharu'n ffafriol â sefydliadau allanol ledled Cymru. O ystyried effaith blwyddyn heriol o ran y newid mawr, roedd yn galonogol gweld bod cyflogeion yn teimlo bod ganddynt gydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith, a bod mwy o gyflogeion yn teimlo bod y sefydliad cyfan yn cael ei reoli'n dda.

Ym mis Hydref 2017, cwblhawyd 99 y cant o adroddiadau perfformiad staff y Comisiwn ac roedd tystiolaeth o'r sylwadau o ymgysylltiad staff cadarnhaol parhaus a thrafodaethau perfformiad effeithiol. Cynhaliwyd cyfres o weithdai a sesiynau galw heibio er mwyn helpu staff i gael y gorau o'r broses rheoli

perfformiad. Cynhelir archwiliad mewnol o reoli perfformiad yn 2018, a bydd unrhyw argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach yn cael eu gweithredu o hyn.

## Cyflawni nodau strategol


Mae ein trefniadau llywodraethu cryf wedi cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o'r cyflawniadau yn erbyn ein nodau strategol. Mae manylion llawn am ein llwyddiant mewn perthynas â'r nodau hyn wedi'u nodi yn yr adran Ein perfformiad: dadansoddiad, ar dudalennau 28 i 71 o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Mae enghreifftiau fel yr amlinellir isod.

Rydym yn parhau i arloesi a theilwra ein gwasanaethau er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r Aelodau, gan fanteisio ar dechnoleg. Mae ein trefniadau llwyddiannus yn y meysydd hyn wedi'u tanategu gan drefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn. Mae dau brosiect wedi'u cyflwyno fel rhan o'r rhaglen FySenedd sy'n ceisio gwneud y Cynulliad yn senedd ddigidol agored, o'r radd flaenaf. Cyflwynodd y rhaglen welliannau sylfaenol ym mhrofiad ar-lein pobl o Gofnod y Trafodion a'r Swyddfa Gyflwyno. Gwnaed y gwelliannau hyn drwy lywodraethu prosiectau mewn modd cadarn a chydweithio'n agos ag Aelodau, staff cymorth, rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn ehangach i ddeall a diwallu eu hanghenion a chael ffocws clir ar wireddu buddion.

Mae'r ddau brosiect wedi'u cyflwyno drwy ddull ystwyth lle mae'r bobl a fydd yn defnyddio ac yn elwa o'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn rhan o'r broses. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd cyson a chynnar i bobl weld yr ateb yn cael ei ddatblygu ac i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion o fewn yr amser a'r gyllideb sydd ar gael. Mae'r ymagwedd newydd hon tuag at ymchwil defnyddwyr, ac i newid, cyfleu ac ymgysylltu yn helpu i adeiladu'r gallu a'r capasiti sydd ei angen ar gyfer ffyrdd digidol o weithio i ffynnu a sefydlu gwaith prosiect ystwyth.

Mewn perthynas â newid cyfansoddiadol, mae'r Grŵp Llywio Newid Cyfansoddiadol wedi parhau i oruchwylio'n effeithiol ar waith Diwygio'r Cynulliad ac ymateb y Cynulliad a chefnogaeth ar gyfer materion cyfansoddiadol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu gweithgor staff Brexit, er mwyn helpu i hwyluso ymateb cydgysylltiedig effeithiol a Grŵp Trawsnewid Deddf Cymru i gydgysylltu ymdrechion i baratoi staff, Aelodau a'r cyhoedd ar gyfer carreg filltir sylweddol yn ein taith datganoli. Cafodd y paratoadau ar gyfer Brexit eu gwella drwy'r trefniadau partneriaeth strategol gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru. At hynny, cyflwynodd y Llywydd araith flynyddol y Ganolfan, dan y teitl “Tuag at senedd sy’n gweithio i Gymru”.

Mae'r diagram isod yn amlinellu'r strwythur llywodraethu o amgylch y Rhaglen Newid Cyfansoddiadol a oedd ar waith yn ystod 2017-18. Sefydlwyd bwrdd prosiect diwygio'r Cynulliad ym mis Ebrill 2018 i oruchwylio, cyfarwyddo a chytuno ar adnoddau ar gyfer gwaith diwygio'r Cynulliad. Cefnogir ei waith gan dîm integredig diwygio'r Cynulliad, yn ogystal â gweithgorau eraill a gaiff eu sefydlu yn ôl yr angen i ganolbwyntio ar elfennau penodol o'r gwaith.




Allwedd

Llinellau atebolrwydd

Ymgysylltiad neu ryngweithiad posibl arall

Grwpiau mewnol y Comisiwn

Grwpiau nad ydynt yn ymwneud â'r Comisiwn

## Rheolaeth a pherfformiad ariannol

Mae ethos gwelliant parhaus y Comisiwn wedi'i adlewyrchu ym maes rheolaeth a pherfformiad ariannol. Rydym wedi gwneud gwelliannau pellach o ran rheolaeth ariannol, adrodd a rhagweld i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael inni.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau wedi'i datblygu ymhellach. Mae hyn wedi gwella prosesau cadarn y Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau a sut y mae'n blaenoriaethu penderfyniadau buddsoddi.

Darparwyd hyfforddiant gyda ffocws i'r mwyafrif o ddefnyddwyr drwy'r flwyddyn ar ddefnyddio'r system newydd; cyllidebu effeithiol; a rhagweld a rheolaeth gyllidebol.

Cafodd effeithiolrwydd rheolaeth ariannol ei adlewyrchu yn y canlynol:

- archwiliad glân o gyfrifon 2016-17: adborth cadarnhaol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a dim meysydd i'w gwella wedi'u hamlygu gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- gostyngiad yn y Ffi Archwilio ar gyfer 2016-17 am yr ail flwyddyn yn olynol, sy'n adlewyrchu'r gwelliant mewn arferion gwaith a phapurau sy'n gysylltiedig ag ymagwedd archwilio wedi'i hadnewyddu gan arwain at broses archwilio effeithlon, llyfn;
- cynhyrchwyd datganiadau ariannol interim ym mis Tachwedd ac ym mis Ionawr yn fuan wedi diwedd y cyfnod, sy'n arfer da ac yn cael ei groesawu gan Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- mae ffocws y Comisiwn ar sicrhau Gwerth am Arian yn parhau er bod graddfa'r meysydd posibl ar gyfer cyflawni arbedion yn lleihau'n raddol. Am y seithfed flwyddyn yn olynol, buom yn uwch na'r arbedion targed o £100,000 (arbediad gwirioneddol o £138,000 yn 2017-18).

## Nodi a rheoli risg

Mae’r system reoli fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi, blaenoriaethu a rheoli risgiau a allai effeithio ar allu’r Comisiwn i gyflawni ei flaenoriaethau a'i nodau strategol yn effeithiol, ac i gydymffurfio â'i bolisïau a'i weithdrefnau.

Cynhaliodd Bwrdd Rheoli y Comisiwn adolygiadau o'i risgiau corfforaethol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd hefyd wedi edrych tua’r dyfodol yn rheolaidd am risgiau sy'n dod i'r amlwg ac wedi monitro'n agos ac adrodd ar y risgiau a nodwyd i sicrhau bod y rheolaethau yn ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau.

Ar ddechrau blwyddyn 2017-18, roedd y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys rhai risgiau sylweddol sydd wedi parhau ar y gofrestr oherwydd eu difrifoldeb parhaus, yn arbennig oherwydd eu heffaith bosibl, er gwaethaf ffocws amlwg ar ddulliau lliniaru. Roedd y risgiau hyn yn cynnwys y canlynol:

- methu ag alinio ein capasiti/gallu corfforaethol i gyflawni blaenoriaethau a nodau strategol y Comisiwn;
- mwy o bwysau ariannol oherwydd yr ansicrwydd o ran adnoddau digonol yn y dyfodol i ariannu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau a nodau strategol y Cynulliad;
- adweithiau negyddol i gynigion i newid enw'r Cynulliad, cynyddu maint y Cynulliad, neu newid trefniadau etholiadol;
- methiant ar ran y Cynulliad i gymryd rhan effeithiol yn y broses o adael yr UE drwy ddylanwad a chraffu, a pharatoadau annigonol ar gyfer yr effaith ar fusnes y Cynulliad;
- risgiau diogelwch megis bygythiadau seiber ac ymosodiadau terfysgol; ac
- ein parodrwydd ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ychwanegu risgiau mewn perthynas â'n gweithdrefnau urddas a pharch, yr angen am adeilad ychwanegol, a chyflawni amcanion yr adolygiad o gapasiti. Rydym hefyd yn gwahanu'r risg gorfforaethol o amgylch GDPR i adlewyrchu'r gwahanol reolaethau a'r camau lliniaru sy'n ymwneud â staff y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad. Roedd hyn wedi cael ei nodi'n flaenorol fel un risg gorfforaethol.

Mae seiberddiogelwch yn risg gorfforaethol a adolygwyd yn rheolaidd, gan gynnwys gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r bygythiad hwn wedi cynyddu drwy'r flwyddyn, ac mae'r Comisiwn wedi ymateb drwy gyflwyno ystod o fesurau amddiffynnol ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. Roedd trefniadau

seiberddiogelwch yn destun adolygiad archwilio mewnol yn ystod 2017-18 a byddant yn parhau i gael sylw wrth symud ymlaen gan y bydd y maes yn parhau ar y cynllun archwilio mewnol blynyddol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Rydym hefyd wedi parhau i fonitro'r effaith gronnus ar y sefydliad o reoli'r risgiau hyn ochr yn ochr, gan adrodd ar hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Mae ein dull rheoli risg wedi ein galluogi i gynllunio ein hymateb i heriau sylweddol yn effeithiol cyn belled ag y bo modd a sicrhau ein capasiti i ymateb a chyflawni newid ochr yn ochr â chynnal safonau uchel o wasanaeth.

Yn ogystal ag ystyried risgiau corfforaethol unigol a'u heffaith gronnol, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg. Croesawodd y Pwyllgor yr asesiad parhaus a gwelededd y risgiau a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd.

## Sicrwydd

### Fframwaith sicrwydd

Defnyddir Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth ynghylch lefelau sicrwydd at ddibenion llywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaeth, sydd, yn eu tro, wedi llywio datganiadau sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth. Ychwanegodd un o'n Cynghorwyr Annibynnol haen arall o sicrwydd drwy graffu ar y broses o gasglu tystiolaeth ar sicrwydd, yn ogystal â'r datganiadau canlyniadol, a'u herio. Mae'r fframwaith yn dangos cryfder cyffredinol ffynonellau'r Comisiwn o sicrwydd. Bydd y dull o gasglu tystiolaeth ar sicrwydd ac adrodd arno yn parhau i gael ei werthuso a'i ddiweddaru i adlewyrchu trefniadau llywodraethu newydd ac i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

### Is-bwyllgorau'r Comisiwn

Mae'r **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** yn cynnwys dau gynghorydd annibynnol, gydag un ohonynt y Cadeirydd, aelod pwyllgor annibynnol arall a Chomisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gyllid a llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth ymgynghorol, ond nid oes ganddo bwerau gweithredol. Cyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad, adroddiadau ar reoli risg, a'r trefniadau llywodraethu a rheoli mewnol.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys tri chynghorydd annibynnol, gydag un ohonynt y Cadeirydd. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn gorff cynghori heb unrhyw bwerau gweithredol ac mae'n gwneud argymhellion ar faterion sy'n ymwneud â thaliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr ac uwch-swyddi eraill. Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau o ran taliadau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd ar gyfer y defnydd o arian cyhoeddus drwy roi cyngor, ar gais, i'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr ar eu cyfrifoldebau ar gyfer arfarnu a pholisïau a systemau o ran taliadau.

## Archwiliad mewnol

Mae Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn yn cyflawni rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y sefydliad. Mae'n darparu sicrwydd ar draws ystod o feysydd gwasanaeth ac yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Ym mis Mai 2017, cwblhawyd Asesiad Ansawdd Allanol o Archwiliad Mewnol gan Bennaeth Archwilio Mewnol a Risg o Senedd yr Alban. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod gwasanaeth archwilio mewnol Comisiwn y Cynulliad yn gyffredinol yn cydymffurfio â safonau archwilio mewnol fel y nodir gan, ac yn unol â, Fframwaith Asesu Ansawdd Archwilio Mewnol Trysorlys Ei Mawrhydi.

Yn ystod 2017-18, mae amseriad gwaith archwilio mewnol wedi cael ei effeithio oherwydd bod y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd wedi arwain ar Adroddiad Cam 1 Adolygiad o Gapasiti y Comisiwn. Mae hwn ynddo'i hun yn ddarn o waith sicrwydd arwyddocaol iawn ac yn ystod y cyfnod mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gynnydd yr Adolygiad o Gapasiti, ynghyd â'r effaith ar y cynllun archwilio mewnol.

Mae gwaith archwilio mewnol wedi sicrhau cydbwysedd y gwaith archwilio systemau, gan gynnwys rheolaethau ariannol a gweinyddu pensiynau, ynghyd ag adolygiadau sicrwydd eraill, gan gynnwys yr ymagwedd tuag at gefnogi Pwyllgorau Integredig ac effaith Adolygiad y Gwasanaeth Diogelwch.

Mae'r adroddiadau archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae'r Comisiwn yn dangos arfer da o ran y systemau a'r rheolaethau y mae wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, mewn meysydd lle mae gwendidau neu broblemau'n dod i'r amlwg, mae rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad. Er enghraifft, nododd yr adolygiad o reolaethau ariannol allweddol nifer o feysydd yr oedd angen eu cryfhau ac aethpwyd i'r afael â'r rhain yn syth erbyn yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru (fel archwilwyr allanol y Comisiwn) yn dal i fod â pherthynas waith effeithiol ac mae ganddynt brotocol cydweithio ar waith. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dibynnu ar y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd ar reolaethau ariannol allweddol, gweinyddu pensiwn a threuliau Aelodau fel rhan o'i hymagwedd tuag at yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2017-18.

Mae Adroddiad 2017-18 y Pennaeth Archwilio Mewnol yn dod i'r casgliad bod y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac yn effeithiol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

## Meysydd llywodraethu eraill

Rydym yn parhau i wella ein trefniadau ar gyfer cynllunio parhad busnes. Ym mis Hydref 2017 gwnaethom gwblhau prawf llawn o'r Cyfarfod Llawn a chynhaliwyd ymarfer o'r gwersi a ddysgwyd. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gallu dangos effeithiolrwydd ein trefniadau parhad busnes wrth ymateb i atal busnes ym mis Tachwedd 2017 a sicrhau bod yr Aelodau'n dal i allu cyflwyno busnes er gwaethaf cau ystâd y Cynulliad, oherwydd tywydd garw yn ystod mis Mawrth 2018 .

Mae'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd wedi cynnal adolygiad o bolisïau'r Comisiwn ar dwyll a chwythu'r chwiban. Ym mis Ebrill 2018, rhoddodd wybod i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg na fu unrhyw newidiadau i'r naill bolisi yn ystod 2017-18. Fodd bynnag, drwy aelodaeth o rwydweithiau ac adolygiad helaeth o'r deunydd diweddaraf gan sefydliadau megis Trysorlys ei Mawrhydi, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru a Public Concern at Work, mae Archwilio Mewnol yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ac yn sicrhau bod y polisïau’n cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol, yn gyfoes ac yn adlewyrchu'r arferion gorau diweddaraf.

Nid oes unrhyw achos o dwyll wedi'i nodi yn ystod 2017-18. Cynhyrchodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol a Barn. At hynny, nid oes unrhyw achos wedi bod o chwythu'r chwiban yn ystod 2017-18.

Nododd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth fod un achos o golli data personol rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 lle bu'n ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Penderfynodd y Perchennog Risg Gwybodaeth nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Rydym wedi defnyddio fframweithiau allanol a fframweithiau a safonau a gydnabyddir yn

rhyngwladol i arwain ein llywodraethu a'n sicrwydd o ran seiberddiogelwch. Mae'r rhain yn ein helpu ni i barhau i ddatblygu a chryfhau ein rheolaethau seiberddiogelwch ac i sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch gwybodaeth a data yn cael eu trin yn briodol.

O ran cynaliadwyedd, mae'r targed o ostyngiad o 30 y cant yn yr holl allyriadau ynni erbyn 2021 o fewn cyrraedd. Mae'r targed o ddargyfeirio 100 y cant o'r gwastraff o safleoedd tirlenwi bellach wedi'i gyrraedd, cyn y dyddiad targed o 2021. Ym mis Mawrth 2018, cawsom y safon ryngwladol ar gyfer achrediad rheoli amgylcheddol (ISO14001).

Mae'r Comisiwn yn monitro'n ffurfiol lefelau o gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddio. Mae'r adroddiadau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn enghreifftiau o'r drefn hon.

O fewn gwasanaethau, mae nifer o fecanweithiau ymarferol yn parhau i gael eu defnyddio i sicrhau llywodraethu da - cyfarfodydd rheolaidd i'r holl wasanaeth a'r holl dîm, staff gyda chyfrifoldebau llywodraethu penodol, diwrnodau datblygu, cyfarfodydd rheoli rheolaidd, canllawiau gan wasanaethau canolog ac archwiliadau pwnc penodol.

## Sicrwydd allanol annibynnol

Mae **Cynghorwyr Annibynnol** anweithredol y Comisiwn yn darparu cymorth ac yn herio Comisiwn y Cynulliad a'i waith mewn ffordd adeiladol. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad a threfniadau adrodd, cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer polisïau a systemau arfarnu a thalu staff a chadw trosolwg beirniadol o reolaeth ariannol y Comisiwn a'i weithdrefn rheoli risg. Yn ystod 2018-19, bydd telerau tri o'r cynghorwyr annibynnol yn dod i ben ac mae Comisiwn y Cynulliad wedi dechrau proses recriwtio i ddisodli'r cynghorwyr hyn dros y flwyddyn nesaf.

Mae bodolaeth y **Bwrdd Taliadau**, sy'n annibynnol yn unol â statud, ac sydd â chyfrifoldeb dros bennu cyflogau, pensiynau a chymorth ariannol i'r Aelodau a'u staff, yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Comisiwn yn sylweddol. Mae defnydd y Bwrdd Taliadau o'r Penderfyniad yn cael ei archwilio yn rheolaidd ac yn parhau i fod yn effeithiol, gan ddiogelu enw da yr Aelodau a'r Cynulliad.

Ceir sicrwydd tebyg gan y **Comisiynydd Safonau** annibynnol. Mae bodolaeth y swyddfa, a'r arbenigedd a'r profiad eithriadol a hanes yr hen Gomisiynydd Safonau a'r un newydd, yn darparu lefel uchel o sicrwydd o ran ymddygiad yr Aelodau a'r drefn safonau.

Mae canlyniadau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn wrth iddo ystyried y diwylliant a'r amgylchedd y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddynt. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cadw ein hachrediad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl; wedi ein nodi yn gyntaf yn y DU ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ar gyfer 2018; a'n henwi gan Stonewall fel sefydliad Perfformiwr Rhagorol oherwydd ein cysondeb ar frig y Mynegai fel Cyflogwr Gorau y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Cafodd ein Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant ei enwi hefyd yn Gyfaill y Flwyddyn Stonewall Cymru. Rydym hefyd wedi sicrhau cydnabyddiaeth drwy: nod siarter Yn Uwch na Geiriau Colli Clyw a gwobrau Cymru Ardderchog gan Action for Hearing Loss Cymru am ragoriaeth mewn gwasanaeth; statws cyflogwr Hyderus o ran Anabledd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau; achrediad fel y cyflogwr gorau ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio gan y Prif Gyflogwyr ar gyfer sefydliad Teuluoedd sy'n Gweithio; a Gwobr Mynediad y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Canolbwynt yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a herio a gwblhawyd gan y Bwrdd Gweithredol ar 5 Mawrth 2018. Ystyriodd yr adolygiad hwn ddatganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a gynhyrchwyd gan ystyried datganiadau sicrwydd manwl gan bob Pennaeth Gwasanaeth. Mynychodd Cynghorydd Annibynnol y Comisiwn, sydd hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y cyfarfod i ddarparu her annibynnol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys sicrwydd ar y canlynol:

- y cynnydd o ran y llwyddiannau allweddol;
- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd a wnaed o ran y meysydd gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt, neu eu cryfhau.

Defnyddiwyd canlyniadau'r adolygiad i lywio cynnwys y datganiad hwn, a chafodd ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyn y cafodd y datganiadau ariannol eu llofnodi.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2018-19

Mae maint y newid yn y dyfodol sy'n wynebu'r sefydliad yn arwyddocaol o hyd. Mae cynlluniau uchelgeisiol y Comisiwn ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, newid digidol, Senedd Ieuenctid a diwygio etholiadol, goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ac agweddau eraill ar newid cyfansoddiadol a gweithrediad Cynulliad bach gyda llwyth gwaith mawr a chynyddol, yn golygu y bydd Comisiwn y Cynulliad yn wynebu pwysau sylweddol o ran adnoddau y flwyddyn nesaf.

Yn ystod 2017-18, cwblhawyd cam cyntaf yr Adolygiad o Gapasiti ac adroddwyd yn amserol a bydd y camau nesaf yn digwydd drwy gydol 2018-19 gyda ffocws clir ar ddatblygu dulliau ac atebion i'r materion y mae'r Adolygiad wedi'u nodi.

Y prif bryder strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod o hyd yw ein gallu i barhau i sicrhau rhagoriaeth ym mhob maes ar yr un pryd â wynebu nifer o heriau na welwyd eu tebyg o’r blaen.

Bydd meysydd ffocws a datblygu penodol ar gyfer 2018-19 yn cynnwys y canlynol:

- gweithredu'r newidiadau a argymhellir yn yr Adolygiad o Gapasiti;
- bod yn ymwybodol o waith newid cyfansoddiadol a diwygio'r Cynulliad;
- rhoi digon o adnoddau i Gomisiwn y Cynulliad i fynd i'r afael â goblygiadau Brexit;
- cyflawni Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Cynulliad mewn ffordd sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Datblygu argymhellion gan y Tasglu Digidol a Gwybodaeth, hyrwyddo tryloywder, ymgysylltu ac effeithlonrwydd, a sicrhau ei bod yn haws cael mynediad at ddata busnes y Cynulliad;
- adolygu ac asesu effaith trefniadau llywodraethu newydd a ddaw yn sgil strwythur y bwrdd newydd;
- gwerthuso a phenderfynu ar drefniadau uwch-aelodau o staff yn y dyfodol;

- parhau i fonitro ac adolygu gweithrediad a chydymffurfiaeth â GDPR ar draws y sefydliad;
- datblygu a lansio polisïau a gweithdrefnau Urddas a Pharch wedi'u diweddaru ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth a staff y Comisiwn.

Byddwn yn paratoi cynllun yn nodi'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Datganiad i gloi

I grynhoi, rwy'n hyderus bod gan y sefydliad safon uchel iawn o lywodraethu. Mae cryfder y sefyllfa hon yn arbennig o bwysig wrth inni wynebu heriau sylweddol. Rwy'n fodlon bod y gwendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw neu yn y broses o gael sylw. Rwyf hefyd yn fodlon bod y systemau a'r prosesau o fewn ein fframwaith llywodraethu wedi cael eu gweithredu a'u datblygu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 16 Gorffennaf 2018



# EIN HATEBOLRWYDD: TALIADAU A STAFF



# Adroddiad ar daliadau a staff

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi sylwebaeth a gwybodaeth ariannol am ddeiliaid swyddi y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Mae'r Bwrdd Taliadau (y Bwrdd) annibynnol, a sefydlwyd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, yn gyfrifol am bennu Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Dechreuodd yr ail Fwrdd, a gadeirir gan y Fonesig Dawn Primarolo, ei dymor 5 mlynedd ym mis Medi 2015.

Mae'r Cadeirydd yn cael £333 y diwrnod. Mae pedwar aelod arall y Bwrdd (Ronnie Alexander, y Fonesig Jane Roberts, Trevor Reaney a Michael Redhouse) yn cael £267 y diwrnod. Yn dilyn ymddiswyddiad Roger Williams ym mis Mai 2016, penodwyd Ronnie Alexander yn bumed aelod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017. Fel Bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun.

Mae'r Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, yn pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 yn £65,344 (£64,000 2016-17). Roedd gan y swyddi a ganlyn hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2017 | O 1 Ebrill 2016 |
|---|---|---|
| Y Llywydd | £41,861 | £41,000 |
| Y Dirprwy Lywydd | £21,441 | £21,000 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £13,273 | £13,000 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch)[41] | £13,273 | £13,000 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (is)[42] | £8,842 | £8,660 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £8,842 | £8,660 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

[41] Dyma'r Pwyllgorau: Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu; Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol; Cyllid; Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a Chyfrifon Cyhoeddus.

[42] Y Pwyllgorau oedd: Deisebau; Safonau Ymddygiad.

O 1 Ebrill 2017, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £13,273 (£13,000 2016-17) a £1,021 ychwanegol (£1,000 2016-17) am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £36,756 (£36,000 2016-17).

O 1 Ebrill 2017, cafodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes a benodwyd gan y grŵp gwleidyddol gyflog deiliad swydd ychwanegol o £8,842 (£8,660 2016-17).

O 1 Ebrill 2017, cafodd Comisiynwyr y Cynulliad a benodwyd gan y grŵp gwleidyddol gyflog deiliad swydd ychwanegol o £13,273 (£13,000 2016-17).

O 1 Ebrill 2017 cafodd cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad gyflog deiliad swydd ychwanegol o naill ai £13,273 (£13,000 2016-17) neu £8,842 (£8,660 2016-17) yn dibynnu ar ba bwyllgor a gadeiriwyd ganddynt.

Ni all aelodau sydd â hawl i gyflogau ychwanegol ostwng eu cyflog cyfan neu ran ohoni (dim 2016-17).

Nid yw'r Comisiwn yn darparu buddion mewn nwyddau. Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad **www.cynulliad.cymru**.

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a benodir gan y Cynulliad.

Dyma'r Comisiynwyr yn ystod 2017-18:

### Elin Jones AC

**Etholwyd ar 11 Mai 2016**. Mynychodd Elin Jones ddeg allan o ddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.

### Suzy Davies AC

**Penodwyd ar 8 Mehefin 2016**. Mynychodd Elin Jones ddeg allan o ddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.

### Joyce Watson AC

**Penodwyd ar 8 Mehefin 2016**. Mynychodd Joyce Watson ddeg allan o ddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.

### Adam Price AC

**Penodwyd ar 21 Medi 2016**. Mynychodd Adam Price naw allan o ddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.

### Caroline Jones AC

**Penodwyd ar 8 Mehefin 2016**. Mynychodd Caroline Jones naw allan o ddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.

### Dai Lloyd AC

**Penodwyd ar 8 Mehefin 2016. Ymddiswyddodd ar 21 Medi 2016**.

Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldebau eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad sy'n eu hatal rhag mynychu cyfarfodydd y Comisiwn o bryd i'w gilydd. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

Roedd y Comisiwn wedi cytuno ar drefniadau portffolio gyda'r Comisiynwyr yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros faterion penodol (gweler tudalennau 14 - 15).

Roedd gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio'r Llywydd, hawl i gyflog blynyddol o £13,273 (£13,000 2016-17) yn ychwanegol at eu cyflog fel Aelodau'r Cynulliad. Nid yw manylion am eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl oedd yn berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

***Tabl 1: Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog 2017-18 £'000 | Cyflog 2016-17 £'000 | Budd-daliadau pensiwn 2017-18[43] £'000 | Budd-daliadau pensiwn 2016-17 £'000 | Cyfanswm 2017-18 £'000 | Cyfanswm 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Elin Jones AC - Llywydd (etholwyd ar 11 Mai 2016) | 105-110 | 90-95 | 36 | 102 | 140-145 | 195-200 |
| Ann Jones AC - Dirprwy Lywydd (etholwyd ar 11 Mai 2016) | 85-90 | 75-80 | 38 | 94 | 120-125 | 165-170 |
| Rosemary Butler AC – Llywydd (daeth ei gwasanaeth i ben ar 11 Mai 2016) | - | 05-10 | - | 2 | 05-10 | 05-10 |
| David Melding AC – Dirprwy Lywydd (daeth ei wasanaeth i ben ar 5 Ebrill 2016) | - | 0-2.5 | - | 0 | 0-2.5 | 0-2.5 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

[43] Mae gwerth y budd-daliadau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir budd-daliadau pensiwn i'r 1000 agosaf).

*Tabl 2: Llywydd a Dirprwy Lywydd - budd-daliadau pensiwn*

| Enw a theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2018 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2017[44] £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elin Jones AC – Llywydd | 0-2.5 | 35-40 | 532 | 476 | 14 |
| Ann Jones AC – Dirprwy Lywydd | 0-2.5 | 30-35 | 610 | 562 | 34 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Clerc y Cynulliad (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno i ymgymryd â'i rwymedigaethau statudol. Mae hyn yn sicrhau y gall y Cynulliad a'i bwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

[44] Mae CETV ar ddechrau'r flwyddyn wedi'i ailddatgan ar gyfer yr aelodau hyn i adlewyrchu'r ffaith y gallant gymryd eu pensiwn cyflog terfynol heb ei leihau cyn 65 oed.



## Y Cynghorwyr Annibynnol ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgorau

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr ac uwch-dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.

Mae'r cynghorwyr yn cymryd rhan yn sawl un o weithgareddau a meysydd gwasanaeth y Cynulliad. Maent yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn; yn ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad a'n trefniadau adrodd; yn cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer polisïau a systemau arfarnu ac yn talu staff a chadw trosolwg beirniadol o reolaeth ariannol y Comisiwn a'i weithdrefnau rheoli risg.

### Keith Baldwin



Treuliodd Keith 20 mlynedd fel Partner yn PricewaterhouseCoopers (PWC). Ar wahân i'w gyfrifoldebau dros gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, daliodd hefyd nifer o swyddi rheoli, gan gynnwys dirprwy bartner yn gyfrifol am ymgynghori â'r Llywodraeth a phartner yn gyfrifol am y swyddogaethau rheoli risg ac ansawdd o fewn busnes cynghori PWC.

Ers gadael PWC mae wedi cyflawni nifer o swyddi anweithredol ac ymgynghorol, gan gynnwys aelod Bwrdd anweithredol ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio yn CVQO Cyf. (sy'n helpu pobl ifanc i ennill cymwysterau galwedigaethol). Roedd yn Aelod o'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin, rhwng 2010 a mis Rhagfyr 2017. Bu'n Gyfarwyddwr Anweithredol o'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (bellach y Coleg Barnwrol) rhwng 2007 a 2011 ac mae wedi cyflawni nifer o swyddi fel aelod pwyllgor a Chynghorydd Arbennig i'r Bwrdd ym Mwrdd Safonau'r Bar (y rheoleiddiwr ar gyfer bargyfreithwyr) ers mis Ionawr 2013.

### Helena Feltham



Mae Helena wedi mwynhau gyrfa hir ym maes Manwerthu ac Arweiniad ym maes Adnoddau Dynol. Ar hyn o bryd, hi yw cyfarwyddwr adnoddau dynol B&Q, a chyn hyn, hi oedd cyfarwyddwr adnoddau dynol byd-eang Topshop Topman, ac mae wedi bod yn gyfarwyddwr adnoddau dynol i Marks & Spencer, Jack Wills Cyf a Woolworth De Affrica. Mae hefyd wedi treulio amser gydag Odgers Berndtson, y cwmni sy'n ymwneud â phenodiadau uwch-swyddogion gweithredol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae Helena wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar Ymddiriedolaeth y GIG, ac ar hyn o bryd mae'n Ynad Heddwch, ac yn aelod o Fwrdd yr Elusen Gweithredu dros Blant a'r Ymddiriedolaeth Manwerthu.

## Eric Gregory



Eric yw Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Roedd yn aelod panel i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a gyhoeddodd ei adroddiad blynyddol ym mis Ionawr 2018. Mae'n Gynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgorau Risg a Sicrwydd ar gyfer Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi a Fisâu a Mewnfudo y DU, cyfarwyddwr anweithredol ar gyfer Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a Llywodraethwr y Sefydliad Iechyd.

Gweithiodd i Bartneriaeth John Lewis am 25 mlynedd tan 2009, lle roedd yn Gyfarwyddwr Bwrdd am saith mlynedd, yn dal pob un o'r tair prif swydd Cyfarwyddwr TG cyn dod yn Gyfarwyddwr Personél, John Lewis. Bu'n gyfarwyddwr anweithredol yn flaenorol ar gyfer rhaglenni Cofrestru Etholiadol Swyddfa'r Cabinet, ac ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron Llundain lle roedd hefyd yn aelod o'r Bwrdd TGCh. Mae hefyd wedi dal swydd cadeirydd bwrdd TG y Fforwm Cynnyrch Defnyddwyr, ac roedd yn aelod o fwrdd busnesau e-sgiliau am chwe blynedd.

## Hugh Widdis



Penodwyd Hugh yn Ysgrifennydd Parhaol Adran Weithredol Cyllid Gogledd Iwerddon ym mis Gorffennaf 2017 a gwasanaethodd yn y rôl hon hyd at fis Mai 2018. Fel Ysgrifennydd Parhaol, roedd yn gyfrifol am sicrhau gweithredu polisi'n effeithiol a darparu arweinyddiaeth strategol i'r Adran mewn cyd-destun rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Ym mis Mai 2018, dychwelodd i'w swydd barhaol fel Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon, sef Cyfreithiwr yr Adran. Mae'n arwain Swyddfa'r Cyfreithiwr Adrannol drwy ddatblygu a gwarchod buddiannau Adrannau Gweithredol Gogledd Iwerddon drwy ddarparu gwasanaethau cyfreithiol cost-effeithiol o safon uchel.

Cyn ymuno â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hugh oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac yn aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

Mae tri chynghorydd annibynnol ac un aelod annibynnol ar y pwyllgor. Maent yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, £7,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a £6,250 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau.

Cynghorwyr Annibynnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018

- Eric Gregory (Tachwedd 2012 – Mawrth 2019) Roedd Eric Gregory yn bresennol mewn 4 o 4 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac 1 o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau

- Helena Feltham (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Roedd Helena Feltham yn bresennol mewn 1 o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau

- Keith Baldwin (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Roedd Keith Baldwin yn bresennol mewn 4 o 4 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac 1 o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau

Nid yw'r cynghorwyr annibynnol yn mynychu holl gyfarfodydd y Comisiwn. Maent yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol.

Aelod Pwyllgor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018

- Hugh Widdis (Tachwedd 2013 – Hydref 2019) Roedd Hugh Widdis yn bresennol mewn 4 o 4 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y cyfnod.

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Taliadau sy'n cynnwys o leiaf dri aelod sy'n annibynnol ar Gomisiwn y Cynulliad a'i staff, ac nid oes ganddynt fuddiannau personol neu fusnes yn swyddogaethau'r Pwyllgor. Rhaid i un neu ddau ohonynt fod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn sicrhau bod y Comisiwn yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus ac, yn benodol, yn ein polisïau a'n systemau arfarnu a thalu.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 oedd:

- Helena Feltham, Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (o fis Ebrill 2014) a Chynghorydd Annibynnol

- Keith Baldwin, Cynghorydd Annibynnol

- Eric Gregory, Cynghorydd Annibynnol

Yn ystod y cyfnod cyfarfu'r Pwyllgor unwaith, ar 16 Tachwedd 2017.

## Uwch-aelodau o staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gellir gweld uwch-aelodau o staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Manon Antoniazzi - ers 24 Ebrill 2017 | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn 4 o 4 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 9 o 10 cyfarfod y Comisiwn ac 1 o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau. Roedd Manon yn bresennol yn 1 cyfarfod y Comisiwn fel arsyllwr cyn cymryd y swydd. |
| Claire Clancy - hyd at 23 Ebrill 2017 | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Roedd Claire Clancy yn bresennol mewn 1 o 10 cyfarfod y Comisiwn |
| Adrian Crompton | Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad |
| Dave Tosh | Cyfarwyddwr Adnoddau<br>Roedd Dave Tosh yn bresennol mewn 4 o 4 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Craig Stephenson | Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn |
| Elisabeth Jones | Prif Gynghorydd Cyfreithiol |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol. Oni nodir yn wahanol, mae'r cyfarwyddwyr yn dal penodiadau sy'n benagored.

*Tabl 3: Cyfanswm taliadau mewn ffigurau sengl*

| Enw | Cyflog (£'000) | | Budd-daliadau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)[45] | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 |
| Manon Antoniazzi – ers 24 Ebrill 2017 | 115-120 | - | 46 | - | 160-165 | - |
| Claire Clancy – hyd at 23 Ebrill 2017 | 5-10 | 150-155 | 1 | 31 | 10-15 | 180-185 |
| Adrian Crompton | 120-125 | 120-125 | 37 | 48 | 160-165 | 170-175 |
| Dave Tosh | 105-110 | 105-110 | 37 | 42 | 144-150 | 145-150 |
| Craig Stephenson | 90-95 | 85-90 | 47 | 50 | 135-140 | 135-140 |
| Elisabeth Jones | 75-80 | 80-85 | 16 | 25 | 95-100 | 105-110 |
| Nicola Callow | - | 0-5 | - | 2 | - | 5-10 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser, lwfansau recriwtio a chadw. Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad na'r cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Bydd Adrian Crompton yn gadael y Comisiwn ar 20 Gorffennaf 2018 i gymryd swydd newydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Lleihaodd Elisabeth Jones ei horiau i 26 yr wythnos o 1 Medi 2016 ymlaen.

Gadawodd Nicola Callow Gomisiwn y Cynulliad ar 21 Ebrill 2016 o dan delerau y cytunwyd arnynt a darparwyd cost o £70,000 o fewn cyfrifon 2015-16 ac fe'i talwyd yn ystod 2016-17.

[45] Mae gwerth y budd-daliadau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

## Cyflogau staff y Comisiwn

Datgelir y berthynas rhwng canolbwynt taliadau bandiau'r cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 a thaliad canolrifol staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn. Cyflogau yw tâl blynyddol, amser llawn cyfatebol yr holl staff (gan gynnwys staff asiantaeth a staff dros dro) ar 31 Mawrth 2018. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Blwydd-daliad y Cyflogwr. Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2017-18 nac yn 2016-17.

| Mesur | 2017-18 Cyflog £ | 2016–17 Cyflog £ |
|---|---:|---:|
| Band y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf | 125,000-130,000 | 150,000-155,000 |
| Cyfanswm taliad canolrifol | 33,304 | 31,341 |
| Cymhareb | 3.83 | 4.87 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2018 oedd £125,000 i £130,000 (£150,000-£155,000 2016-17). Roedd hyn yn 3.83 gwaith (4.87 yn 2016-2017) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £33,304 (£31,341 yn 2016-17).

Penodwyd y Prif Weithredwr newydd ar y pwynt isaf o'r raddfa gyflog ac mae hyn wedi lleihau'r gymhareb.

Yn 2017-18, ac yn 2016-17, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau'n amrywio o £16,258, a oedd yn sicrhau bod cyflogeion yn derbyn Cyflog Byw, i £125,000 (£16,000 i £152,000 2016-17).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod.

## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – budd-daliadau pensiwn***

| *Enw a theitl* | Gwir gynnydd mewn pensiwn[46] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig[47] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2018 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2017 £'000 | *Gwir gynnydd mewn CETV £'000* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad* | | | | | |
| *Manon Antoniazzi - ers 24 Ebrill 2017* | 2.5-5.0 | 10-15 | 150 | 118 | *24* |
| *Claire Clancy - hyd at 23 Ebrill 2017* | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 70-75 a chyfandaliad o 215-220 | 1,672 | 1,667 | *1* |
| *Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad* | | | | | |
| *Adrian Crompton* | 0-2.5 a chyfandaliad o 0 | 45-50 a chyfandaliad o 120-125 | 880 | 811 | *15* |
| *Cyfarwyddwr Adnoddau* | | | | | |
| *Dave Tosh* | 0-2.5 | 35-40 | 541 | 488 | *20* |
| *Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn* | | | | | |
| *Craig Stephenson* | 0-2.5 a chyfandaliad o 5-7.5 | 40-45 a chyfandaliad o 125-130 | 856 | 764 | *41* |
| *Prif Gynghorydd Cyfreithiol* | | | | | |
| *Elisabeth Jones* | 0-2.5 | 35-40 | 756 | 685 | *15* |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

[46] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.

[47] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2018 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol ac ar y dyddiad maent yn peidio â dal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.

## Pensiynau’r Gwasanaeth Sifil

Darperir budd-daliadau pensiwn i staff y Cynulliad drwy Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan PCSPS bedair adran: tair sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau’r budd-daliadau eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy’n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cynyddu’n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Roedd aelodau presennol PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y Cynllun ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae pob aelod sy'n newid i alpha wedi bancio eu budd-daliadau o PCSPS, gyda'r rhai sydd â budd-daliadau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y budd-daliadau hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun alpha - fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fudd-daliadau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw'r gwerth cyfunol o'i fudd-daliadau yn y ddau gynllun.)

Gall yr aelodau sy’n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai’r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid ‘prynu arian’ gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflogau ac maent rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Mae budd-daliadau yn y cynllun classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy’n gyfwerth â’r tair blynedd gyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae budd-daliadau yn y cynllun premium yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob

blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun classic plus gyda'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun classic ac mae'r budd-daliadau am wasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun premium. Gyda chynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o'i gyflog pensiynadwy yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae budd-daliadau yn alpha yn cynyddu mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer uwch-aelodau o staff yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun alpha - fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fudd-daliadau yn y PCSPS ac alpha, ffigur a ddyfynnir yw'r gwerth cyfunol o'i fudd-daliadau yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Mae rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Y Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y budd-daliadau a gaiff eu prisio yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r budd-daliadau a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn budd-daliadau o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion am y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Mae manylion am y rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i'r VES i'w gweld yn Nodyn 2 D (ar dudalen 157).

## Nifer y staff

Nifer y staff fesul categori

Mae’r holl uwch-reolwyr a’r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Dyma nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr):

***Tabl 5: Staff cyfwerth ag amser llawn cyfartalog***

| Categori | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 433.11 | 415.49 |
| Staff ar secondiad | 3.55 | 3.48 |
| Staff dros dro/achlysurol | 14.53 | 22.16 |
| Cyfanswm | **451.19** | **441.13** |

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dyma nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn:

***Tabl 6: Staff cyfwerth ag amser llawn cyfartalog***

| Categori | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 442.31 | 417.69 |
| Staff ar secondiad | 2.30 | 4.95 |
| Asiantaeth | - | 25.34 |
| Cyfanswm | **444.61** | **447.98** |

***Tabl 7: Cyfansoddiad y staff yn ôl rhywedd a band****

| Categori | 31 Mawrth 2018 | | | 31 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Gwryw | Cyfanswm | Menyw | Gwryw | Cyfanswm |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 3 | **5** | 2 | 3 | **5** |
| Staff | 232 | 231 | **463** | 231 | 230 | **461** |
| Cyfanswm | **234** | **234** | **468** | **233** | **233** | **466** |

*Yn y tablau uchod caiff staff a gyflogir eu nodi fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, nodir fod y dadansoddiad o ran rhywedd yn niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol yn cael eu cynnwys yn y ffigurau amser llawn na'r dadansoddiad o ran rhywedd uchod. Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## Data absenoldeb salwch

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 3.77 y cant (3.54 y cant yn 2016-17), neu 8.29 (7.78 yn 2016-17) o ddiwrnodau gwaith cyfartalog y person. Rydym yn cadw ffocws strategol ar reoli absenoldeb ac yn cefnogi absenoldebau'n weithredol drwy Reolwyr Llinell, Adnoddau Dynol a chymorth Iechyd Galwedigaethol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio ar les meddyliol, ac mae gwybodaeth ar gael yn yr adran Defnyddio adnoddau'n ddoeth ar dudalen 50.

## Anabledd

Mae gennym fesurau ar waith i gefnogi cyflogeion sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Mae ein Polisi Llenwi Swyddi Gwag yn cyfeirio at ein sefyllfa gyfweld gwarantedig ar gyfer ymgeiswyr sy'n bodloni'r gofynion lleiaf, sydd hefyd yn gymwys yn fewnol ar gyfer cyflogeion sy'n ceisio dyrchafiad.

Gwneir addasiadau rhesymol, lle bynnag y bo'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng cyflogeion a rheolwyr ar gyfer cyflogeion sy'n gweithio neu'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu ddatblygu salwch a all gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Rheoli cyfalaf dynol

Mae gennym bolisïau a systemau ar waith i gefnogi holl staff y Comisiwn i ddatblygu eu sgiliau'n barhaus, nodi cyfleoedd newydd, cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a rhoi gwybod iddynt am ddatblygiadau allweddol ar sut y mae'r Cynulliad yn gweithredu. Credwn y dylai pob aelod o staff gael mynediad at y datblygiad y mae ei angen arnynt i wneud eu gwaith, ac rydym yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu diwylliant dysgu lle mae sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ein staff yn cael eu datblygu'n barhaus. Mae rhagor o wybodaeth am feithrin gallu pobl ar gael yn yr adran Defnyddio adnoddau'n ddoeth ar dudalennau 49 – 49.

Mae'r disgwyliadau ar staff Comisiwn y Cynulliad yn uchel.  Mae’r strategaeth Pobl yn ceisio sicrhau bod ein trefniadau cyflogaeth yn ein galluogi i ddenu a chadw pobl sydd â’r sgiliau a’r ymddygiad sydd eu hangen i ddarparu’r gwasanaethau gorau posibl. O fewn hynny, mae angen i’n trefniadau gynnig digon o hyblygrwydd i gydnabod cyfraniad cyflogeion arbenigol a phrofiadol, gan gysylltu datblygiad cyflog â pherfformiad.

## Perthynas undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff sy'n cynnwys rheolwyr a chynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur sy'n cwrdd bob chwarter. Gall y naill ochr a'r llall godi pynciau i'w trafod; yn gyffredinol, maent yn bynciau sy'n cael effaith ar draws Comisiwn y Cynulliad. Mae gan bob un o'r tri Undeb swyddogol (PCS, FDA a Prospect) eu cynrychiolwyr eu hunain ond mae'r tri yn gweithio'n rheolaidd gyda'i gilydd i gynrychioli holl aelodau'r Undeb.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael yn yr adran Defnyddio adnoddau'n ddoeth ar dudalennau 50 - 51.

## Teithio a chynhaliaeth

Mae manylion am hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar gael yn Nodyn 15 ar dudalennau 166 – 167.

---

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 16 Gorffennaf 2018

---





# **EIN HATEBOLRWYDD:** ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO



# Datganiad am gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodiadau ategol

## a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2017-18

| | | Cyllideb £'000 | | | Alldro £'000 | | | 2017-18 £'000 | Alldro 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **Gwariant** | **Incwm** | **Cyfanswm** | **Gwariant** | **Incwm** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gor wariant)** | |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | SOS 01 | 37,313 | (300) | 37,013 | 37,941 | (193) | 37,748 | (735) | 40,451 |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | SOS 01 | 15,532 | - | 15,532 | 14,408 | - | 14,408 | 1,124 | 13,763 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | SOS 01 | 1,900 | - | 1,900 | 1,696 | - | 1,696 | 204 | 1,078 |
| | | 54,745 | (300) | 54,445 | 54,045 | (193) | 53,852 | 593 | 55,292 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## b) Gofyniad arian parod net 2017-18

| | | | | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **Cyllideb** | **Alldro** | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gofyniad arian parod net | SOS 03 | 50,245 | 50,172 | 73 | 51,962 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad Perfformiad.

# Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau

## (Datganiad am gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

*SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2017-18*

| | Alldro | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Gwariant Refeniw* | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 22,279 | 22,453 | 174 | 22,453 | 174 | 20,706 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 15,595 | 14,360 | (1,235) | 14,360 | (1,235) | 16,781 |
| Costau'r etholiad | - | - | - | - | - | 2,491 |
| **Gwariant refeniw gros** | **37,874** | **36,813** | **(1,061)** | **36,813** | **(1,061)** | **39,978** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (193) | (300) | (107) | (300) | (107) | (163) |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **37,681** | **36,513** | **(1,168)** | **36,513** | **(1,168)** | **39,815** |
| GWARIANT CYFALAF (Creu asedau sefydlog) | 67 | 500 | 433 | 500 | 433 | 636 |
| **ALLDRO ADNODDAU NET (Gwariant y Comisiwn)** | **37,748** | **37,013** | **(735)** | **37,013** | **(735)** | **40,451** |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 14,408 | 15,532 | 1,124 | 15,532 | 1,124 | 13,763 |
| **ALLDRO ADNODDAU** | **52,156** | **52,545** | **389** | **52,545** | **389** | **54,214** |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,696 | 1,200 | (496) | 1,900 | 204 | 1,078 |
| **CYFANSWM ALLDRO ADNODDAU NET** | **53,852** | **53,745** | **(107)** | **54,445** | **593** | **55,292** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Dadansoddiad o alldro adnoddau net – nodiadau

Yr alldro adnoddau, cyn costau cyllid pensiwn, ar gyfer 2017-18 oedd £52.2 miliwn yn erbyn cyllideb o £52.5 miliwn, gan arwain at danwariant o £0.3 miliwn (0.6 y cant).

Yn ystod 2017-18, datblygwyd nifer o feysydd buddsoddi sylweddol. Roedd y rhain yn cynnwys cwblhau gwaith adnewyddu i'r llawr gwaelod yn Nhŷ Hywel, y gwaith a ddechreuwyd yn y flwyddyn flaenorol, ailosod yr offer teledu cylch cyfyng yn Nhŷ Hywel, atebion technoleg i gefnogi'r Cyfarfod Llawn, Pwyllgorau ac ymchwil a Diwygio'r Cynulliad. Roeddem yn gallu ariannu'r gofynion blaenoriaeth hyn drwy adleoli adnoddau heb eu defnyddio o gyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelod, yn hytrach na gorfod gofyn am Gyllideb Atodol. Yr amrywiant ar y llinell gyllideb hon oedd £1.1 miliwn.

Mae gwariant cyfalaf yn anodd ei ragfynegi. Mae'r mwyafrif o flaenoriaethau buddsoddi Comisiwn y Cynulliad yn refeniw mewn natur. Yn 2017-18 roedd y gwariant yr aethpwyd iddo bron i gyd yn refeniw. Gwnaed nifer o fuddsoddiadau mewn technoleg i gefnogi nifer o brosesau a gwasanaethau allweddol ond nid oedd y rhain yn cyd-fynd â'r meini prawf gofynnol i'w trin fel asedau anniriaethol.

Diben cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol y Comisiwn yw'r addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2017-18 ym mis Tachwedd 2016 a gwnaed yr amcangyfrif sy'n ofynnol ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £1.2 miliwn ar sail y data a oedd ar gael ar y pryd.

Ym mis Mehefin 2017 cafodd y Comisiwn amcangyfrifon diweddar gan gynghorwyr proffesiynol. Roedd y cyfrifiadau newydd yn adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a newidynnau eraill sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o rwymedigaethau'r cynllun ac arweiniodd at amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2018-19 o ychydig yn llai nag £1.8miliwn. Mae'r newid unigol mwyaf yn ostyngiad yn y gyfradd ddisgownt o 1.3 y cant ar 31 Mawrth 2016 i 0.3 y cant ar 31 Mawrth 2017. Mae gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt net yn arwain at gynnydd yng nghost y gwasanaeth presennol, sef prif gydran y gost cyllid pensiwn.

Cynigiodd y Comisiwn gyllideb atodol gwariant a reolir yn flynyddol o £1.9 miliwn er mwyn sicrhau y byddai digon wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau diwedd blwyddyn terfynol. Y ffigur diwedd blwyddyn a gadarnhawyd oedd £1.7 miliwn a oedd yn golygu bod tanwariant o £0.2 miliwn.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

*SOS 02. Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net*

| | Nodyn | 2017-18 £000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 53,852 | 55,292 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (67) | (636) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 701 | 707 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 05 | - | - |
| **Gwariant gweithredu net** | | **54,486** | **55,363** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £701,480 (£706,670 2016–17) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net. Tynnwyd y swm o £688,042 a'i dalu yn y flwyddyn a chafodd £13,438 ei gronni a'i dalu ar ôl diwedd y flwyddyn.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Tystysgrif ac adroddiad annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar archwilio'r datganiadau ariannol

*Barn*

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol.  Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys ac mae Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2018, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Sail y farn*

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran hynny o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy

nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i'm barn.

*Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol*

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi roi gwybod ichi amdanynt:

- nid yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a all achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a’r adroddiad archwilydd arno. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf, heblaw i'r graddau a nodir fel arall yn fy adroddiad, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'm gwaith archwilio o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw i ddarllen y wybodaeth arall er mwyn nodi unrhyw anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy’n ymddangos yn anghywir, a hynny ar sail y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu oherwydd unrhyw anghysondeb o bwys a welaf rhwng y datganiadau a’r wybodaeth a gaf. Os byddaf yn gweld unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy adroddiad.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae’r gwariant a’r incwm yn y datganiadau ariannol wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae’r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu rheoli.

## Adrodd ar ofynion eraill

### *Barn ar faterion eraill*

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

### *Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad*

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys Ei Mawrhydi am daliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### *Adroddiad*

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

*Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol*

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol, a hynny'n unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed oddi tano, am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Prif Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau bod modd paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol fel rhai cymwys, a defnyddio'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu oni bai y bernir ei fod yn amhriodol.

*Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol*

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol o ran pa un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau o bwys ai peidio, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn rhai o bwys, os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau o ran rheoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol.

Rhaid imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
17 Gorffennaf 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*



# EIN DATGANIADAU ARIANNOL



# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 2017-18 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o weithrediadau | | | |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 193 | 163 |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | | **193** | **163** |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 27,956 | 27,069 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 8,629 | 8,696 |
| Costau cyllid pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 1,696 | 1,078 |
| Dibrisiant a thaliadau amhariad | 3 | 2,582 | 2,614 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 13,816 | 16,069 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **54,679** | **55,526** |
| Gwariant gweithredu net | | 54,486 | 55,363 |
| Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth | | 54,486 | 55,363 |
| | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr arall | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| ▪ Colled net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | - | (3,147) |
| ▪ (Enillion)/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 2a a 9 | (2,460) | 5,982 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **52,026** | **58,198** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai a geir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| Asedau anghyfredol: | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 62,114 | 64,536 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 13 | 106 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **62,127** | **64,642** |
| Asedau cyfredol | | | |
| Stoc | | 19 | 23 |
| Symiau masnachol a symiau i'w derbyn | 6 | 1,745 | 1,765 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 73 | 74 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **1,837** | **1,862** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **63,964** | **66,504** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (4,265) | (4,888) |
| Darpariaethau | 9 | - | - |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(4,265)** | **(4,888)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **59,699** | **61,616** |
| Rhwymedigaethau anghyfredol | | | |
| Darpariaethau | 9 | (15,099) | (15,863) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol | | (15,099) | (15,863) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **44,600** | **45,753** |
| Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 43,957 | 45,874 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | | (14,979) | (15,743) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 15,622 | 15,622 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **44,600** | **45,753** |

**Manon Antoniazzi**

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 16 Gorffennaf 2018

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Datganiad Llif Arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 2017-18 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (54,486) | (55,363) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 4 a 5 | 2,582 | 2,614 |
| Gwaredu | 4 | - | - |
| Gostyngiad mewn stoc | | 4 | 4 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 20 | (175) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 9 | - | 120 |
| Gostyngiad mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (623) | (450) |
| Y cynnydd mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | | 1 | 162 |
| Defnyddio darpariaethau | 9 | - | (23) |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 1,696 | 1,078 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(50,806)** | **(52,033)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (67) | (636) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(67)** | **(636)** |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) | | 50,245 | 52,036 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | | 701 | 707 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (74) | (236) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | | **50,872** | **52,507** |
| Gostyngiad net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | (1) | (162) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 74 | 236 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **73** | **74** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

*Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018*

| | Nodyn | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y gronfa ailbrisio wrth gefn £'000 | Cronfa bensiwn wrth gefn £'000 | Ecwiti'r trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | | 47,490 | 12,475 | (8,683) | 51,282 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (55,363) | 3,147 | (5,982) | (58,198) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | | 1,078 | - | (1,078) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad (awdurdodedig) | | 52,038 | - | - | 52,038 |
| ▪ Cyflenwad (heb ei dynnu) | | (2) | - | - | (2) |
| ▪ Taliadau uniongyrchol | | 707 | - | - | 707 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad | | (74) | - | - | (74) |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | | 45,874 | 15,622 | (15,743) | 45,753 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (54,486) | - | 2,460 | (52,026) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,696 | - | (1,696) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 3 | 50,245 | - | - | 50,245 |
| ▪ Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 3 | - | - | - | - |
| ▪ Taliadau uniongyrchol | | 701 | - | - | 701 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad | | (73) | - | - | (73) |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | | 43,957 | 15,622 | (14,979) | 44,600 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 140 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*



# NODIADAU SY'N CYD-FYND Â'R CYFRIFON



## 01. Datganiad am y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail gronnus yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2017-18 y Llywodraeth a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2014-15 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol yn ystod y flwyddyn, a chanfuwyd nad effeithir ar Ddatganiadau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Confensiwn cyfrifyddu*

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ailbrisiwyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

### *Eiddo, offer a chyfarpar*

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

*Dibrisio asedau*

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

*Asedau sy'n cael eu hadeiladu*

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei gynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

*Asedau anniriaethol*

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased.

*Asedau a geir yn rhodd*

Caiff asedau a roddwyd eu cyfalafu ar y gwerth cyfredol ar ôl eu derbyn a chânt eu hailbrisio fel arfer yn yr un ffordd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a roddwyd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

### *Dibrisiant*

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael. Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac adeiladau: | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio |
| Cyfarpar TGCh, clyweledol a darlledu: | Pedair i chwe blynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 mlynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

### *Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn*

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw a wireddwyd ar y prisiad, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ar ôl gwaredu'r ased.

### *Cydrannau asedau*

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol.

Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau. Mae asedau TGCh yn cael eu "grwpio" i TGCh; cyfarpar clyweledol a darlledu; seilwaith TGCh ac asedau anniriaethol. Bydd y gwahanol rannau'n cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol.

*Datganiad gwariant cynhwysfawr*

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae'r incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei hadennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu'r Aelodau mewn perthynas â threuliau neu gostau yr eir iddynt ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau, yn amodol ar yr amrywiol derfynau ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

*Stoc*

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

*Cyfnewid arian tramor*

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw. Trosir imprestau arian cyfred tramor i sterling ar sail y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar y pryd.

*Pensiynau*

**Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff sydd wedi'u secondio i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelod o'r Cynllun. Cynllun budd-daliadau diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y Cynllun ar ddiwedd mis Mawrth 2012 ar 17 Gorffennaf 2014. Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fo hynny'n ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cyfrifon Pensiwn Sifil (**http://www.civilservice.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

**Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad**

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf*

*Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun budd-daliadau diffiniedig ydyw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Bydd unrhyw rwymedigaethau'r gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actiwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rhwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actiwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, sydd ar wahân i gyfrifon y Comisiwn, ac **mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Cynulliad**[48]**.**

*Cost prydles weithredol*

Caiff rhenti sy'n daladwy o dan brydles weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

*Treth ar Werth*

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, ac mae wedi'i eithrio rhag TAW yng nghyswllt darparu nwyddau a gwasanaethau'r Cynulliad. Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

*Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod*

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol yn Barclays Bank a Citibank, y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

---

[48] http://www.assembly.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

*Budd-daliadau i gyflogeion*

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fudd-daliadau sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

*Adroddiadau cylchrannol*

Mae'r rheolwyr yn fodlon, o dan ofynion Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 8, nad oes gan y sefydliad ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

*Darpariaethau*

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael ei adolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arno yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

- Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad  Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.

- Mae'r darpariaethau ar gyfer talu iawndal i staff yn seiliedig ar ragamcanion o'r taliadau pensiwn a ddisgwylir yn y dyfodol. Defnyddir y gyfradd ddisgownt berthnasol fel y'i gosodir gan Drysorlys EM yn y cyfrifiadau hyn.

- Darpariaeth ddadfeilio yw'r asesiad o'r gost debygol o gywiro dadfeilio o dan delerau prydles Tŷ Hywel. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr adeilad a brydlesir ganddo yn cael ei gadw i'r fath safon fel nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio, gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw a'r adolygiad blynyddol a chytuno â'r flaenraglen waith 10 mlynedd.

- Yn 2016-17, crëwyd darpariaeth yn y swm o £120,000 i'w ddarparu'n benodol ar gyfer y gost o symud y pontydd troed rhwng Tŷ Hywel a'r Senedd a thrwsio wal Tŷ Hywel ar ôl eu symud.

## 02. A – Costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am niferoedd yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) ar gael yn yr Adran Atebolrwydd - Taliadau a Staff.

*Costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a staff*

***Tabl 8: Mae costau staff yn cynnwys***

| Categori | Staff £'000 | Aelodau a deiliaid swyddi £'000 | Cyfanswm 2017-18 £'000 | Cyfanswm 2016–17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 16,113 | 5,065 | 21,178 | 20,281 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | 28 | - | 28 | 672 |
| Staff ar secondiad | 222 | - | 222 | 126 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 1,746 | 636 | 2,382 | 2,121 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | 3 | - | 3 | 39 |
| Staff ar secondiad | 24 | - | 24 | 17 |
| Costau pensiwn eraill | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 3,393 | 779 | 4,172 | 3,861 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | 6 | - | 6 | 93 |
| Staff ar secondiad | 38 | - | 38 | 15 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 21,573 | 6,480 | 28,053 | 27,225 |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (97) | - | (97) | (156) |
| Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | **21,476** | **6,480** | **27,956** | **27,069** |

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel yr eglurir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2018, roedd 60 Aelod Cynulliad mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 27 o ddeiliaid swyddi (heblaw Gweinidogion), un Prif Weinidog, un

Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip, chwe Ysgrifennydd y Cabinet, pum Gweinidog ac un Cwnsler Cyffredinol.

Yn ystod 2017-18, cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) £50.245 miliwn o adnoddau gan Gronfa Gyfunol Cymru i ariannu'r gwaith o weinyddu a gweithredu gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac eitemau eraill, fel y nodwyd yng Nghwmpas y Gyllideb ar gyfer 2017-18 Comisiwn y Cynulliad. At hynny, ac fel y nodwyd ar dudalen 126 o'r datganiadau ariannol, defnyddiodd y Comisiwn £688,042 o adnoddau o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu taliadau uniongyrchol, gan gynnwys £153,000 o ran cyflog Archwilydd Cyffredinol Cymru. Pennir y cyflog ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru drwy gyfeirio at raddfa gyflog benodol y Gwasanaeth Sifil. Yn dilyn diwedd y flwyddyn, nodwyd nad oedd rhai newidiadau yn y raddfa honno cyn 31 Mawrth 2018 wedi'u cymhwyso. Y cyflog newydd yw £161,744. Mae'r cyfrifon ar gyfer 2017-18 yn adlewyrchu croniad am y swm na thalwyd digon ohono. Bydd y taliadau uniongyrchol i'w tynnu i lawr yn 2018-19 yn cynnwys y swm o £11,443 sy'n gysylltiedig â'r croniad hwnnw.

*Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil*

Ar gyfer 2017-18, roedd cyfraniadau cyflogwr o £3.387 miliwn (£3.161 miliwn 2016-17) yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20 y cant i 24.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari’r cynllun yn adolygu cyfraniadau’r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae’r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu’r budd-daliadau wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau’r cynllun yn y gorffennol.

Mae cyflogeion newydd ers 1 Ebrill 2015 yn gymwys i ymuno â naill ai alpha neu partnership. Cynllun pensiwn budd-daliadau diffiniedig cyfartalog gyrfa yw alpha; mae partnership yn gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw’r cyfrif pensiwn partnership. Roedd y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r pensiwn partnership yn y Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol yn £11,838 (£1,215 2016–17). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y pwynt hwnnw.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

*Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun budd-daliadau diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i'r Ddeddf yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu budd-daliadau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad gynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa newydd ar gyfer Aelodau. Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a daeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021.

Mae gan y Cynllun gyfradd gronnus o 1/50fed ac oedran pensiwn sy'n gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd cyfraniad yr Aelodau yw 10.5 y cant ar gyfer aelodau newydd a'r rhai sy'n symud i'r cynllun CARE ar 6 Mai 2016. Bydd yr Aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021. Bydd yr aelodau hyn yn parhau i gyfrannu ar eu cyfradd gyfredol o naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer croniad deugeinfed neu hanner canfed yn y drefn honno. Bydd cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn 15.6 y cant a bydd yn destun cap.

Mae Aelodau nad ydynt yn cael 'Diogelwch Trosiannol' yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5 y cant. Mae'r aelodau hynny sy'n cael 'Diogelwch Trosiannol' yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6 y cant neu 10 y cant yn dibynnu a ydynt yn cronni budd-daliadau ar sail hanner canfed neu ddeugeinfed yn y drefn honno.

Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol, sef 65 oed.

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad, gan Mobius Life Limited, a chânt eu rheoli gan bedwar rheolwr buddsoddi. Mae'r

Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cronfa Twf Amrywiol, cronfa Elw Absoliwt, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Ecwiti, cronfa Eiddo a chronfa Giltiau Mynegrifol.

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae manylion am y cyflogau a'r lwfansau yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017.

Y prif amcan ariannu yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r budd-daliadau a addawyd i'r aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn fel y cynghorir gan Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan gymryd i ystyriaeth gyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau bod budd-daliadau cronnus yn cael eu talu yn ystod cyfranogiad aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y taliadau sy'n cael eu talu gan y Cynulliad ar gyfer budd-daliadau cronnus yn rhesymol sefydlog dros amser. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy benderfynu ar gyfradd gyfrannu a fynegir fel canran lefel o gyflog pensiynadwy o'r enw Cyfradd Cyfraniad Safonol. Mae’r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai’n ddigonol i gyllido’r budd-daliadau o dan y Cynllun, ar yr amod bod profiad yn unol â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaed. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronnus a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir ym mhob prisiad actiwaraidd tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu lai am gyfnod i ganiatáu, yn arbennig, am ailddefnyddio gwargedion a diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, ac mae incwm cyfraniad yn dal i fod yn fwy na threuliau budd-daliadau rheolaidd. Mae hyd cyfartalog pwysol rhwymedigaethau'r cynllun yn tua 20 mlynedd.

***Tabl 9: Dyma'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol***

| | Nodyn | 31 Mawrth 2018 £’000 | 31 Mawrth 2017 £’000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau’r cynllun | | (50,385) | (49,456) |
| Gwerth teg asedau’r cynllun | | 35,406 | 33,713 |
| Rhwymedigaeth net | | (14,979) | (15,743) |
| | | | |
| Swm yn y Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (14,979) | (15,743) |
| Asedau | | - | - |
| **Rhwymedigaeth net** | 9 | **(14,979)** | **(15,743)** |

*Tabl 10: Dadansoddiad o'r symiau a godwyd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr*

| | 2017-18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 2,016 | 1,472 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,329 | 1,364 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (924) | (1,043) |
| | 2,421 | 1,793 |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau pensiwn eraill | 725 | 715 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,696 | 1,078 |
| | 2,421 | 1,793 |

*Tabl 11: Dadansoddiad o'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)*

| | 2017-18 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 669 | 3,615 |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 297 | 160 |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 1,494 | (9,757) |
| (Colledion)/enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE | 2,460 | (5,982) |

*Tabl 12: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn*

| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 49,456 | 38,352 |
| Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau ) | 2,016 | 1,472 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 472 | 632 |
| Budd-daliadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,097) | (1,961) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,329 | 1,364 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | (1,791) | 9,597 |
| Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth | 50,385 | 49,456 |

***Tabl 13: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn***

| | **31 Mawrth 2018 £'000** | **31 Mawrth 2017 £'000** |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 33,713 | 29,669 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 924 | 1,043 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 669 | 3,615 |
| Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 725 | 715 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 472 | 632 |
| Budd-daliadau a dalwyd a threuliau | (1,097) | (1,961) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **35,406** | **33,713** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £970,810 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2018-19.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 14: dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | **2017–18** | **2016–17** |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 41% | 41% |
| Buddsoddiadau amgen | 12% | 21% |
| Eiddo | 10% | - |
| Llog sefydlog ac arian parod | 37% | 38% |

Mae'r Bwrdd Pensiynau wedi bod yn gweithio gyda'i gynghorydd buddsoddi (Quantum Advisory) i adolygu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun. O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r Bwrdd wedi penderfynu peidio â rhoi ei asedau yn nwylo Baillie Gifford yn unig ond i'w gwasgaru'n ehangach fel a ganlyn:

- Baillie Gifford Diversified Growth
- Invesco Perpetual Global Targeted Returns
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations
- LGIM Ethical Global Equity Index
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt

Nod y strategaeth newydd yw cadw’r enillion a wnaed hyd yma’n ddiogel; lleihau risg drwy sicrhau amrywiaeth; cadw ffioedd yn rhesymol; lleihau’r risg sy’n ymwneud â rheolwr buddsoddi penodol; lleihau ansefydlogrwydd o ran lefel y cyllid a chynnig cyfleoedd ehangach o ran buddsoddi.

Datblygwyd y strategaeth fel rhan o adolygiad a gynhaliodd y Cynllun a rhagwelir y bydd yr enillion disgwyliedig yn debyg i’r enillion a gynhyrchwyd drwy strategaeth fuddsoddi flaenorol y Cynllun, ond y bydd lefel ddisgwyliedig y risg yn is.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu penodi pedwar rheolwr buddsoddi sy'n rheoli chwe chronfa sy'n gronfeydd Twf Amrywiol, cronfa Elw Absoliwt, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Ecwiti, cronfa Eiddo a chronfa Giltiau Mynegrifol.

Y gwir enillion o asedau’r cynllun yn 2017-18 oedd £1.721 miliwn (£4.767 miliwn yn 2016-17).

*Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:*

***Tabl 15: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| Tybiaeth | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| Cyfradd y disgownt | 2.55% | 2.65% |
| Cynnydd enillion yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | -1.65% | -1.60% |
| Cynnydd pensiwn yn y dyfodol (CPI) - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | 0.25% | 0.30% |
| Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd) | | |
| Dynion | 24.4 | 25.3 |
| Aelodau benywaidd | 25.8 | 26.9 |
| Gweddwon | 24.5 | 26.9 |

*Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau*

Os bydd y gyfradd wirioneddol o enillion sy'n fwy nag enillion yn newid 0.5 y cant y flwyddyn, byddai'r atebolrwydd actiwaraidd cyfan yn newid tua 1 y cant a'r newid yn yr holl rwymedigaethau tua £0.5 miliwn.

Pe byddai cyfradd wirioneddol yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 0.5 y cant, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 10 y cant, a byddai newid o tua £5.0 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy gan ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd tua 7 y cant a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £3.5 miliwn.

Dyma'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol::

***Tabl 16: Dyma'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig | 50,385 | 49,456 | 38,352 | 38,175 | 30,258 |
| Asedau'r cynllun | 35,406 | 33,713 | 29,669 | 29,028 | 25,486 |
| Rhwymedigaeth net | (14,979) | (15,743) | (8,683) | (9,147) | (4,772) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 297 | 160 | 338 | 1,306 | 720 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 6,696 | 3,615 | (1,041) | 1,477 | (282) |

Mae rhagor o wybodaeth am **Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad**[49] ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

[49] http://www.assembly.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

## 02. B – Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr Aelodau gwerth £8.629 miliwn (£8.696 miliwn 2016-17) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2017–18 £'000 | 2016–17 £'000 |
|---|---|---|
| Costau swyddfa | 1,035 | 1,027 |
| Costau ychwanegol | 263 | 222 |
| Cyfanswm Staff yr Aelodau | 7,094 | 7,213 |
| Costau teithio | 237 | 234 |
| Cyfanswm costau eraill yr Aelodau | 8,629 | 8,696 |

Mae costau staff yr Aelodau yn cynnwys dau daliad diswyddo, sy'n gyfanswm o £26,570 a wnaed yn 2017-18, (£10,000 a wnaed yn 2016-17).

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynllun rhanddeiliaid grŵp (cyfraniad diffiniedig) gydag AVIVA ac mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant o gyflog gros i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Hefyd, gall cyflogai ddewis gwneud cyfraniad misol rheolaidd drwy aberthu rhan o'i gyflog. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig gan mai dyddiad cyflwyno'r cynllun oedd 1 Ionawr 2017. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2017-18 oedd £635,213 (£622,060 yn 2016-17).

## 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur (Comisiynydd Safonau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Y Comisiynydd Safonau yw Syr Roderick Evans a ymgymerodd â'r swydd ar 1 Rhagfyr 2016. Mae'r swydd yn benodiad tymor sefydlog 6 blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Syr Roderick Evans a'i waith ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

Yn ystod 2017-18, cafwyd cyfanswm costau o £25,471 (£21,959 2016-17) mewn perthynas â gwaith y Comisiynydd.

Cafodd 234 awr â chost o £19,715 (212 awr â chost o £17,889 yn 2016-17) am waith y Comisiynydd ar gyfer 2017-18 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Cafodd 161.5 awr â chost o £5,756 (129 awr â chost o £4,070 yn 2016-17) am waith y Comisiynydd ar gyfer 2017-18 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

## 02. D – Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Lansiodd Comisiwn y Cynulliad Gynllun Ymadael Gwirfoddol ar draws pob gwasanaeth ar 19 Tachwedd 2015. Gadawodd cyfanswm o 20 o bobl, dau cyn 31 Mawrth 2016 a'r gweddill yn ystod 2016-17. Ar 31 Mawrth 2017, roedd rhwymedigaeth ar y Comisiwn i wneud taliadau i 1 aelod o staff yn ystod 2017-18. Cyfanswm cost y rhwymedigaeth hon ar 31 Mawrth 2017 oedd £18,000.

***Tabl 17: Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol***

| Band cost y pecyn ymadael | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2017-18 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2016-17 |
|---|---|---|
| £0 - £20,000 | - | 1 |
| £20,001 - £40,000 | - | - |
| £40,001 - £60,000 | - | - |
| £60,001 - £80,000 | - | - |
| £80,001 a £100,000 | - | - |
| £100,000 ac uwch | - | - |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | - | 1 |
| Cyfanswm y gost adnoddau (£'000) | - | 18 |

Gwnaed un taliad diswyddo i aelod o staff y Comisiwn yn 2017-18 (dim 2016-17) fel rhan o becyn setliad a drafodwyd a oedd yn gyfanswm o £95,000.

Yn 2015-16, gwnaed taliadau diswyddo arbennig yn gwella telerau safonol y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, sef cyfanswm o £93,000, i ddau aelod o staff fel rhan o becynnau setliad wedi'u trafod. Cafodd y costau eu cronni yn 2015-16 a gwnaed y taliadau yn ystod 2016-17. Roedd un o'r rhain, am £70,000, yn gysylltiedig â Chyfarwyddwr ac felly caiff ei ddatgelu yn yr adroddiad taliadau a staff.

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £16.4 miliwn (£18.7 miliwn yn 2016–17) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| **Categori gwariant** | **2017–18 £'000** | **2016–17 £'000** |
|---|---:|---:|
| | | |
| Prydlesau - adeiladau | 2,826 | 2,828 |
| Prydlesau - arall | 150 | 101 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,677 | 7,319 |
| Costau TGCh | 2,906 | 3,318 |
| Treuliau gweinyddol | 1,720 | 1,840 |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 537 | 663 |
| *Costau gweinyddol eraill* | 13,816 | 16,069 |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 2,582 | 2,614 |
| Cyfanswm Costau gweinyddol eraill | 16,398 | 18,683 |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £57,958 (£62,958 2016-17). Ni chynaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn 2017-18 (£0 2016-17).

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau[50] | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2017-18 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiant | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 61,641 | 15,080 | 1,701 | 80 | - | 78,502 |
| Ychwanegiadau | - | 67 | - | - | - | 67 |
| Ailddosbarthu a throsglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Ailbrisiad | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 61,641 | 15,147 | 1,701 | 80 | - | 78,569 |
| Dibrisiant | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | - | (12,757) | (1,129) | (80) | - | (13,966) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,716) | (691) | (82) | - | - | (2,489) |
| Ailbrisiad | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2018 | (1,716) | (13,448) | (1,211) | (80) | - | (16,455) |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 59,925 | 1,699 | 490 | - | - | 62,114 |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2017 | 61,641 | 2,323 | 572 | - | - | 64,536 |

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y tir a'r adeiladau hyn, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2017, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbrisio ar gost adnewyddu dibrisiedig fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd ymagwedd y prisiwr yn cynnwys cyfrifo cost adeiladu adeiladau cyfatebol modern a dibrisio'r gost i gyfrif am oes a bywyd economaidd yr adeiladau yn y dyfodol.

Ni nodwyd unrhyw arwyddion o nam yn yr adolygiadau amhariad ar 31 Mawrth 2018 ac felly ni nodwyd unrhyw amhariadau.

[50] Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau [51] | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2016-17 £'000 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiant | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 63,464 | 14,078 | 1,701 | 80 | 366 | 79,689 |
| Ychwanegiadau | - | 636 | - | - | - | 636 |
| Ailddosbarthu a throsglwyddiadau | - | 366 | - | - | (366) | - |
| Ailbrisiad | (1,823) | - | - | - | - | (1,823) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 61,641 | 15,080 | 1,701 | 80 | - | 78,502 |
| Dibrisiant | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | (3,314) | (12,046) | (1,039) | (80) | - | (16,479) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,656) | (711) | (90) | - | - | (2,457) |
| Ailbrisiad | 4,970 | - | - | - | - | 4,970 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | - | (12,757) | (1,129) | (80) | - | (13,966) |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017 | 61,641 | 2,323 | 572 | - | - | 64,536 |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2016 | 60,150 | 2,032 | 662 | - | 366 | 63,210 |

[51] Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

## 05. Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Cost neu brisiant | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 2,317 | 2,317 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,317** | **2,317** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **(2,211)** | **(2,211)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (93) | (93) |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **(2,304)** | **(2,304)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018** | **13** | **13** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2017 | 106 | 106 |

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Cost neu brisiant | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 2,317 | 2,317 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,317** | **2,317** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **(2,054)** | **(2,054)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (157) | (157) |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **(2,211)** | **(2,211)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018** | **106** | **106** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2017 | 263 | 263 |

## 06. Symiau masnachol a symiau i'w derbyn

| Categori | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 52 | 48 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 34 | 12 |
| Rhagdaliadau | 1,310 | 1,369 |
| TAW y gellir ei hadennill | 349 | 336 |
| | **1,745** | **1,765** |

Nid oedd unrhyw symiau i'w derbyn gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | 74 | 236 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 30 | (162) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **73** | **74** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| RBS | 58 | 58 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 15 | 16 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **73** | **74** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| Categori | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | | |
| TAW yn daladwy | 8 | 13 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 758 | 733 |
| Symiau masnachol taladwy | 1,111 | 1,156 |
| Croniadau | 2,315 | 2,912 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 73 | 74 |
| | 4,265 | 4,888 |

Nid oedd unrhyw symiau'n daladwy gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Cynllun pensiwn yr Aelodau £'000 | Darpariaeth Dadfeilio £'000 | 2017-18 Cyfanswm £'000 | 2016-17 Cyfanswm £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | 15,743 | 120 | 15,863 | 8,706 |
| (Gostyngiad)/cynnydd yn y ddarpariaeth | (2,460) | - | (2,460) | 6,102 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,696 | - | 1,696 | 1,078 |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - | (23) |
| Balans ar 31 Mawrth | **14,979** | **120** | **15,099** | **15,863** |

* (Colled o £5.982 miliwn - 2016-17).

O dan IAS 19, caiff rhwymedigaeth o £14.979 miliwn ei chydnabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 02.A. Mae rhagor o wybodaeth am y darpariaethau talu iawndal a darpariaethau dadfeilio ar gael yn adran y darpariaethau o Nodyn 01 - Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

O'r cyfanswm o £15.099 miliwn (£15.863 miliwn yn 2016-17), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (£0 miliwn - 2016-17).

## 10. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2017.

## 11. Ymrwymiadau o dan brydlesau

### *(a) Prydlesau gweithredol*

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,777 | 2,795 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,040 | 11,057 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 24,908 | 27,668 |
| | 38,725 | 41,520 |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 41 | 88 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 41 | - |
| | 82 | 88 |

### *(b) Prydlesau ariannol*

Nid oes unrhyw rwymedigaethau cyfredol o dan brydlesau ariannol.

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau sy'n cyfeirio at derfynu contractau'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 13. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian gan neb arall. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 14. Rhwymedigaethau amodol

*a) Cyfraniadau pensiwn*

Mae gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau cytundebol i swm sy'n cyfateb i 10 y cant o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at bensiwn. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'i hamcangyfrifir fel a ganlyn:

| Cyfraniadau pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Aelodau sydd: | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2017 £'000 | Swm a dalwyd yn 2017-18 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn | 3 | 3 | - | Eithaf annhebygol |
| Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed | 3 | 41 | - | Eithaf annhebygol |

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysuro.

## 15. Teithio a Chynhaliaeth gan gyfarwyddwyr

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf:

| Categori | Manon Antoniazzi Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ers 24 Ebrill 2017 | | Claire Clancy Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad hyd at 23 Ebrill 2017 | | Adrian Crompton Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad | | Dave Tosh Cyfarwyddwr Adnoddau | | Elisabeth Jones Prif Gynghorydd Cyfreithiol | | Craig Stephenson Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 [52] | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 [53] | 2016-17 [54] | 2017-18 | 2016-17 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Milltiroedd car | 288 | - | - | 85 | - | 170 | - | - | 55 | 198 | - | - |
| Tacsi / llogi car / costau cysylltiedig | 77 | - | - | 35 | - | - | - | - | - | 80 | - | 70 |

[52] Roedd y rhan fwyaf o gostau teithio yn 2017-18 yn gysylltiedig â dwy daith i gefnogi gwaith rhyng-seneddol yng Nghaeredin a Quebec, ynghyd â theithio yng Nghymru yn gysylltiedig â mentrau diwygio etholiadol.

[53] Mae'r costau teithio yn 2017-18 yn adlewyrchu'n bennaf yr angen i deithio dramor i gefnogi'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yng nghyd-destun ei waith yn ymwneud â phenderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, a theithio mewnol yn y DU sy'n gysylltiedig â gwaith ar Ddeddf Cymru 17 a gweithredu'r setliad datganoli newydd yng Nghymru a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth honno.

[54] Mae'r costau teithio yn 2016-17 yn adlewyrchu'n bennaf yr angen i deithio dramor i gefnogi'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yng nghyd-destun ei waith yn ymwneud â phenderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, a theithio mewnol yn y DU sy'n gysylltiedig â gwaith ar Fil Cymru 2016-17 a gweithredu'r setliad datganoli newydd yng Nghymru a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth honno.

| Categori | Manon Antoniazzi Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ers 24 Ebrill 2017 | | Claire Clancy Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad hyd at 23 Ebrill 2017 | | Adrian Crompton Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad | | Dave Tosh Cyfarwyddwr Adnoddau | | Elisabeth Jones Prif Gynghorydd Cyfreithiol | | Craig Stephenson Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 [52] | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 [53] | 2016-17 [54] | 2017-18 | 2016-17 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Teithio awyr / costau cysylltiedig | 963 | - | 112 | 226 | 180 | - | 112 | 175 | 341 | 982 | 258 | - |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 79 | - | - | 276 | 245 | 364 | 50 | - | 162 | 451 | 106 | 4 |
| Llety | 906 | - | - | 148 | 179 | - | - | 119 | 524 | 551 | 452 | - |
| Cynhaliaeth / treuliau | 28 | - | 33 | 66 | 160 | - | 95 | - | 387 | 334 | 64 | 28 |
| Cyfanswm | 2,341 | - | 145 | 836 | 764 | 534 | 257 | 294 | 1,469 | 2,596 | 880 | 102 |

## 16. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal â hyn, ceir trafodion rheolaidd rhyngddo a Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (gweler yr **Adroddiad ar daliadau a staff**). Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Roedd y cyn-Ddirprwy Lywydd, David Melding, a Peter Black, un o'r Comisiynwyr ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, hefyd yn ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Yn dilyn hynny, penodwyd Suzy Davies, un o'r Comisiynwyr ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn un o gynrychiolwyr y Comisiwn i'r Bwrdd Pensiynau newydd ar 16 Mehefin 2016. Fe wnaeth Joyce Watson, hefyd yn Gomisiynydd, ddisodli Suzy Davies fel cynrychiolydd y Comisiwn ar 22 Chwefror 2017. Fe wnaeth Caroline Jones, hefyd yn Gomisiynydd, ddisodli Joyce Watson fel cynrychiolydd y Comisiwn ar 25 Ionawr 2018.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Cynulliad. Gall yr Aelodau gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth. Fodd bynnag, caniateir hyn yn unig pan na fydd yr Aelod Cynulliad yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.





# **ATODIAD :** ADRODDIADAU RHEOLEIDD-DRA



## Adroddiadau rheoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei hawdurdodi gan y Cynulliad drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm a gaiff ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiadau a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2017-18 y Llywodraeth a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

*SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r gostyngiad mewn arian parod*

| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---:|---:|
| Gofyniad arian parod net | (50,172) | (51,962) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 50,245 | 52,038 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | - | (2) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (74) | (236) |
| **Gostyngiad mewn arian parod** | **30** | **(162)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

*SOS 4 Cysoni Alldro Adnoddau Net i Ofyniad Arian Net*

| | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant) £'000 | Alldro 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 54,445 | 53,852 | 593 | 55,292 |
| Addasiadau croniadol | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (4,500) | (4,278) | (222) | (3,692) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 300 | 598 | (298) | 362 |
| Gofyniad arian parod net | | 50,245 | 50,172 | 73 | 51,962 |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2017-18 £'000 | Alldro 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 5 | (2,600) | (2,582) | (18) | (2,614) |
| Cost cyllid pensiynau IAS 19 a newidiadau eraill mewn darpariaeth | | (1,900) | (1,696) | (204) | (1,078) |
| | | (4,500) | (4,278) | (222) | (3,692) |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

*SOS 5 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

| | Cyllideb 2017-18 £'000 | Alldro 2017-18 £'000 | Alldro 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 300 | 193 | 163 |
| Is-gyfanswm | 300 | 193 | 163 |
| Swm a gadwyd | 300 | 193 | 163 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | - | - | - |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2017–18 (dim yn 2016–17).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.